# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 6 HYDREF 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## "Dinbych yn Blodeuo"








Llongyfarchiadau i "Dinbych yn Blodeuo " am ennill Aur yng ngwobrau Cymru yn ei Blodau eleni, ac am ddod yn gyntaf yng nghategori 'Tref'. Pur anaml mae cystadleuwyr yn ennill fel hyn ar eu hymgais gyntaf.





Mr Bryn Lloyd Roberts a enillodd lawer o gwpannau yn Sioe Dinbych - rhan o'i randir bendigedig yn Nimbych

**BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Gwener, Hydref 18, neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Tachwedd 2,2019**

# Lansio llyfr Gwyn Matthews Genefa, Paris a Dinbych



Gwynn a Mair Matthews gyda Gwar a Martha - tud 26



Gwrando ar ddarlleniadau gan Gaynor Morgan Rees



Meira yn croesawu pawb

‘Cacen wnaethpwyd gan Edna Pomeroy, un o staff y Llyfrgell, yn cael ei



Gwyneth,Meiria,Gaynor,Janet, Gwyn, Nan,Edna,Roland,a Tilly -tud 18



Gwyn Williams





Capel Pendref - tud 7

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones 01745 812214
russelljones9 @talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**

# Gair gan y Golygydd

Un o brofiadau rhyfedd byw yn y dref yma yw trin gardd ty sydd yn ymyl y ffordd fawr, ag er bod digonedd o le gennym yn yr ardd gefn, y cwbwl sydd yma yn yr ardd flaen yw troedfedd neu ddwy rhwng y ty a’r palmant. I nodi’r terfyn rhwng y ddau mae rheiliau metel, sy’n cynnig ymryson rhwng paent a rhwd sy’n mynnu dod i’r golwg – a dyna fy ngardd ffrynt.

Garddio yma felly yw peintio, ag yn gyntaf rhaid dewis dydd lle nad oes rhagolygon glaw, a wedyn mynd ati – crafu a brwsio’r rhwd cyn cychwyn gwaith gyda’r brwsh paent. Mae hyn yn waith go ddyfal, ond dyma lle y mae’n troi yn go hynod ar adegau. Wrth gadw eich pen i lawr mae pob math o seiniau yn eich cyrraedd – sgyrsiau o bob math, yn enwedig gan dwr o bobol ar eu ffordd i lawr o dop y dre. Cewch glywed gweiddi, weithiau’n dod o bellter i ffwrdd neu drydar teuluoedd cyfan, a phlant, yn tueddu i edrych yn syn ar y gwaith sy’n mynd ymlaen, gan feddwl, efallai, na welsant ddim byd fel hyn o’r blaen ar y teledu.

Daw swn corn ambell i gar gyda naws reit flin iddo – ceir yn pasio’n ddi baid wrth gwrs, yn enwedig o gwmpas naw o’r gloch y bore, neu un neu bump y prynhawn – loriau, sydd erbyn hyn bron mor gyffredin a cheir, yn llai aml ond eto’n gyson. Ar yr adegau prysur hyn daw rhes at eu gilydd – pen wrth gynffon – a phawb yn dod i stop am ryw reswm neu’i gilydd nad yw’n amlwg. Teimlo wedyn bod pawb yn eu ceir yn edrych ar y creadur yma ag yn beirniadu safon ei waith.

Wedyn efallai daw pobl heibio eto – a chymryd dim sylw oni bai eu bod am ddweud wrthyf bod y gwaith yn fy nghadw’n brysur ag yn fy rhwystro rhag crwydro strydoedd! Weithiau bydd y sawl sy’n pasio yn fy adnabod ag yn cynnig cydymdeimlad cyn cychwyn siarad am y tebygrwydd rhwng y gwaith hwn a gwaith peintio pont fawr nid an-enwog yn yr Alban, sef gwaith sydd yn hollol ddiddiwedd.

Droeon eraill fe gymer rhai yn ganiataol mai gweithiwr cyflogedig achlysurol sydd wrthi a daw cynnig i mi wneud yn un gwaith rywbryd ar eu heiddo nhw, heb son am dal wrth gwrs. Ond rhaid cyfaddef bod y cyffyrddiadau a’r gymdeithas yn y gwaith hwn yn ddifyr iawn ag yn cynnig amrywiaeth heb ei ail. Sylwais nad yw hyn yn digwydd ar ochr arall y stryd. Pam tybed. Wel y gwir yw nad oes yno reiliau i’w cael yn y gerddi o achos iddynt gael eu symyd i’w toddi yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Rhian y teipydd y tro hwn am ddal ymlaen gyda'r gwaith o baratoi Y Bigwn ar ol y profedigaeth o golli ei thad yn sydyn. Cydymdeimlwn gyda hi a'i theulu

Ceredig.



TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

### YSGOLORIAETH COLIN JONES I GANTORION IFANC

Mae’n fwriad gan Gorws Colin Jones ddefnyddio’r arian sy’n weddill yng nghronfa’r côr i sefydlu ‘Ysgoloriaeth’ er cof am Colin. i gydnabod ei gyfraniad i gerddoriaeth yng Nghymru fel arweinydd corau meibion, hyfforddwr llais, a chyfeilydd. Dymuniad Colin ei hunan oedd i’r gystadleuaeth am yr ysgoloriaeth hon gael ei chynnal yn Eisteddfod Flynyddol Llanrwst.

Os bydd y cantorion a gafodd eu hyfforddi , yn unawdwyr neu gyn- aelodau’r corau y bu’n eu harwain, yn dymuno cyfrannu i’r gronfa’r ysgoloriaeth hon, yna dylid anfon yr arian at drysorydd y Corws, **Reg Jones, Penymaes. 5 James Park, Dyserth, Sir Ddinbych, LL18 6AG a ‘r sieciau’n dyladwy i ‘Colin Jones Singers’**. Bydd y Gronfa’n cau ar Hydref 31.. Diolch yn fawr.

**BAG Y BIGWN**
**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**
Ysgol Glan Clwyd
£100.00

**Golygydd Mis Tachwedd: Erfyl Williams**

**Dyddiadur CymdeithasCaledfryn**
Hydref 25ain.’Helyntion y Plismon – profiadau cyn-blismon Heddlu Gogledd Cymru’ gan Jo Arwel Jones.



Penblwydd hapus i Seth Jones (Dubai) yn 3 oed ar Hydref 19 gan Dad a Mam (Gwyn a Ceri) a Hari. Taid a Nain Dinbych (John Geraint ac Eiri) ac Anti Nia, Yncl Sam ac Elen.




## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonnog i Bryn Roberts, Trefnant ar ennill llawer o wobrau yn Sioe Flodau Dinbych eleni. Bu wrthi yn brysur iawn yn magu ei flodau yn rhandir y dref a chafodd well tywydd yn y cyfnod cynnar hwn na llynedd. Mae yma rai lluniau o'i flodau i'w gweld yn y rhifyn hwn.

Rhaid llongyfarch hefyd lwyddiant Aaron Broster sydd wedi ei benodi yn Brif Gogydd ym mwyty Bryn Williams, ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn. Bu Aaron yn brif gogydd am flynyddoedd lawer ym Melin Brwcws yn y dref hon, ag oddi yno aeth i gychwyn Bwyty 1891 wrth y mor yn y Rhyl cyn ei swydd bresennol.

Camp a gyflawnwyd gan Kirin, chwaer Aaron, ychydig ddyddiau yn ol oedd llwyddo i fynd o ben gogleddol Ynys Manaw i'r de eithaf ar gefn beic mynydd, taith o bron hanner can milltir i hel arian at achos da. Mae Kirin yn gyn-ddisgybl o Ysgol Glan Clwyd ac yn byw ar yr ynys ers deng mlynedd ar hugain.

llun ar dudalen gefn



# Y Capeli

## Capel Y Fron

Nos Sul Mehefin 23ain braf iawn oedd cael croesawu Y Parch W H Pritchard, Bae Trearddur atom ac fe wnaeth Wendy Lloyd Jones ddiolch iddo am ei wasanaeth ac hefyd i Iona Edwards oedd wrth yr organ. Bore Sul Mehefin 30ain yr oedd y gwasanaeth dan ofal Mrs Enid Davies, EglwysBach a'r organyddes oedd Iona Edwards. Y Sul cyntaf ym mis Gorffennaf yn ôl yr arfer yr oedd yr Ŵyl flynyddol yn Neuadd Trefnant yng ngofal Meilir Geraint. Nos Sul Gorffennaf 14eg yr oedd yr oedfa dan ofal ein Gweinidog a'r organyddes oedd Mrs Eiri Jones ac yna bore Sul Gorffennaf 21ain Y Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn oedd y cenad a Iona Edwards oedd yr organyddes. Yna y Sul olaf o'r mis fe ddaeth Y Parch Glyn Thomas, Abergele atom. Yn ystod mis Awst y mae yr oedfa'r bore yn undebol yn Capeli'r dre.
Dydd Sul Medi 1af yr oedd ein Gweinidog yn Gweinyddu'r Cymun yn oedfa'r bore a'r organyddes y Sul yma oedd Iona Edwards. Nos Sul Medi'r 8fed Y Parch Irfon Parri oedd gyda ni a Eiri Jones oedd yr organyddes. Y mae amryw o'r aelodau wedi cyfarfod a phrofedigaeth yn ddiweddar ac yr ydym yn cydymdeimlo a Tegwen Williams, Carys Jones a Gwenda Owens.

## Y Capel Mawr a Seion

Yn ystod y cyfnod er cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r Bigwn cafwyd oedfaon yn ystod Mehefin a Gorffennaf dan ofal y Parchedigion W. H. Pritchard, Anna Jane Evans,Trefor Lewis, Glyn Thomas a'r Gweinidog. Mrs Catrin Warren a Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr offeryn.

Daeth eglwysi Anghydffurfiol y dref at ei gilydd yn ôl yr arfer yn ystod Awst ar gyfer oedfaon boreol, a daeth cynulleidfaeodd da iawn ynghyd.

Tro'r Capel Mawr oedd croesawu'r eglwysi eraill ar y Sul cyntaf o'r mis. Y cennad oedd y Parch. Robert Parry, a oedd yn pregethu am y tro cyntaf erioed o bulpud Y Capel Mawr.
Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ. Ar ddechrau Medi rhoddwyd cychwyn ar arbrawf newydd gyda chynulleidfaoedd Y Brwcws, Y Fron a'r Capel Mawr yn dod at ei gilydd ar gyfer oedfa foreol pan fo'r Gweinidog gartref. Ar y Suliau hyn ni chynhelir oedfaon hwyrol. Yn Y Fron y cynhaliwyd yr oedfa ar y Sul cyntaf o'r mis, ac roedd cynulleidfa deilwng iawn ar gyfer derbyn y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Ar yr ail Sul o'r mis cafwyd cwmni'r Parch. Irfon Parry, Craig-y–Don, ar gyfer yr oedfa foreol. Croesawyd ef gan Mr Stan Lyall, llywydd y mis, a Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

## Aelwyd Capel Mawr

Dechreuwyd cyfarfod cyntaf y tymor gan y llywydd Mrs Helena Williams. Wedi croesawu pawb darllenodd englynion am Fis Medi a gweddi fechan. Buom yn meddwl am y rhai sy ddim yn dda ar hyn o bryd, a dymuno'r gorau iddynt.
Cydymdeimlwyd a Freda Evans wedi colli brawd a chwaer yng nghyfraith a chyfnither yn ddiweddar. Hefyd pob cydymdeiilad a Sian Eifion wedi colli ei thad.
Ein siaradwr gwadd oedd y Parchedig Nesta Davies a croesawyd hi gan Helena Williams. Roedd mor braf cael ei chwmni un waith eto.
Teitl ei sgwrs oedd "Breuddwydion" a chawsom brynhawn difyr iawn. Rhoddodd beth o hanes ei theulu a chanolbwyntiodd yn bennaf ar hanes ei modryb, sef Anti Magi aeth drosodd i fyw yn America yn ninas Scranton Pennsylvania. Breuddwyd Nesta Davies pan yn ferch ysgol oedd cael ymweld a Scranton ac Efrog Newydd wedi gweld yr holl luniau yrrwyd iddynt gan Anti Magi. Breuddwyd merch Nesta oedd gwneud cwrs ar gelfyddyd yn Efrog Newydd, ac fe wireddwyd ei breuddwyd, a breuddwyd Nesta hefyd pan gymerodd y cyfle i ymweld a'i merch yno. Yn ystod yr amser cymerodd y cyfle i olrhain hanes ei theulu yn Scranton. Mwynhawyd y sgwrs a'r lluniau a diolchwyd iddi gan Rhiannon Wynne. Diolch hefyd i Dorothy Bartley a Carys Jones am baratoi paned

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron ar Brwcws

Nos Fercher Medi 11eg ar noson braf iawn fe gawsom ymweld â gerddi Pont y Tŵr a cael ein croesawu gan Sioned a Iwan Edwards. Y mae yr ardd yn hardd iawn ac er bod yn dymor gweld popeth ar ei orau, yr oedd lliwiau'r hydref yn dechrau ymddangos a coed ffrwythau i weld yn llawn ffrwyth. Wedi i ni fod o gwmpas yr ardd yr oedd y teulu wedi paratoi paned a cacen i ni ac yr oedd yn braf gweld Nanw, Malan a Iago yn helpu. Yr oedd Sioned wedi paratoi tusw hardd o flodau ar enillydd lwcus oedd Megan Hughes. Diolch i Liz Edwards am wneud y trefniadau.


"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"



**Dewch i gwrdd â Deian a Loli yn Ysgol Twm o'r Nant, Sadwrn Tachwedd 16eg**
**10:00-12:00y.b.**

**Cyfle i siarad a chael hunlun efo Deian a Loli / stondin paned/ nwyddau yr urdd/ raffl #ribidirew**
**Tocynnau wrth y drws**
**£5 i blant**
**£1 i oedolion**
**Elw - Pwyllgor Apêl Dinbych/ Eisteddfod 2020**
**Am fwy o fanylion cysylltwch - elsiwyn@icloud.com**

## CAPEL BRWCWS

Yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf cawsom wasanaeth y Parchedigion W.H.Pritchard, Anna Jane Evans, Trefor Lewis a Glyn Thomas.

Cynhaliwyd Sul Gŵyl yn Neuadd Trefnant dan arweiniad Meilyr Geraint fore Sul Gorffennaf 7ed.

Prynhawn Sul, Gorffennaf 14ed bu gwasanaeth arbennig i Ddathlu Capel Brwcws yn 150.

Arweiniwyd gan ein Gweinidog, y Parch.Ddr Andras Iago, gyda'r plant Magi a Gwen Davies, Cai a Rhys Jones, Mari a Beca Edwards a Cari a George Cattell yn ledio yr emynau. Cafwyd hanes yr achos dros y cant a hanner o flynyddoedd gan Dilwyn Jones. Ef hefyd fu yn golygu llyfryn o hanes y Capel ac a gyflwynodd gwpan y dathlu i'r plant a'r aelodau. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.

Yn dilyn yr Oedfa cawsom i gyd fynd i Felin Brwcws i'r Te Dathlu. Bu inni fwynhau cwmni nifer a fagwyd yng Nghapel Brwcws. Diolch i bawb a wnaerh y diwrnod yn llwyddiant ysgubol.

Ym mis Awst bu cyfle i ymuno yn oedfaon undebol y dref.

Ar y Sul cyntaf o fis Medi cynhaliwyd Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog yng Nghapel y Fron.

Bore Sul, Medi 8ed bu i'r Ysgol Sul ail ddechrau ar ôl seibiant yr Haf. Rhian, Cari a George Cattell fu yn gyfrifol am y rhannau arweiniol.


Y Parch. Irfon Parry oedd yn pregethu y pnawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Cydymdeimlwyd a Rhian a Dylan Williams yn dilyn marwolaeth tad Rhian, Arwyn Davies, Henllan. Taid Gwion, Aron a Gwenno.

Nos Fercher, Medi 11eg bu i aelodau Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws ymweld a Gardd Pont y Tŵr lle cawsom groeso gan Iwan a Sioned Edwards a'r plant Nanw, Malan a Iago. Enillodd Megan Hughes dusw o flodau hardd. Diolch i Lis Edwards am drefnu. Talwyd diolch i'r teulu bach gan Dilys Davies.

## CAPEL BRWCWS YN DATHLU 150 YR ADEILAD

Lluniau ar dudalen 27




Ar Ddydd Sul, Gorffennaf 14eg, bu gwasanaeth arbennig yng Nghapel Brwcws i ddathlu 150 mlynedd yr adeilad. Pwysleisir mai 150 mlynedd yr adeilad oedd pwnc y dathlu oherwydd y mae'r achos yn mynd yn ol ymhellach o dipyn na hynny ac yn dyddio yn ol i 1828.

Yr oedd y gwasanaeth dan arweiniad y gweinidog, Y Parch. Ddr. Andras Iago gydag Eleanor Roberts wrth yr organ a Gwilym Williams yn arwain y gan. Dilwyn Jones oedd yn croesawu a diolch a rhoddodd grynodeb byr o hanes y capel hefyd. Lediwyd yr emynau gan nifer o blant yr Ysgol Sul a braf oedd eu gweld yn gwasanaeth ynghyd a nifer o gyn-aelodau a chyfeillion yn cynnwys y dirprwy faer a'r dirprwy faeres a'n cyn-weinidog Y Parch. Eifion Jones a gyhoeddodd y fendith.

Wedi'r gwasanaeth, cafwyd orig ddifyr yn cymdeithasu dros de dathlu ym Melin Brwcws.

Ar y Nos Wener flaenorol, ymddangosodd Carolyn Thomas, ysgrifenyddes y capel, a Dilwyn, y trysorydd, ar raglen "Heno" ar y teledu yn son am y dathlu.

Hefyd, cynhyrchwyd ychydig dros gant o fygiau i nodi'r dathlu a chant a hanner o gopiau o lyfryn y dathlu a olygwyd gan Dilwyn ond gyda chyfraniadau gan nifer o bobl a llawer o luniau mewn du a gwyn ac mewn lliw.

Mae'r mygiau i gyd wedi mynd erbyn hyn ond mae rhai copiau o'r llyfryn yn dal ar ol ac i'w cael am bris rhesymol drwy gysylltu hefo Dilwyn ar 01745 813195 neu 07500538714 neu dilwyn@boyns.wales neu dilwynjones2017@outlook.com .

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyflwyno rhoddion hael at y dathlu naill ai ar y plat casgliad yn y gwasanaeth neu fel arall – yr ydym bron iawn wedi derbyn digon o arian i ddelio hefo'r costau i gyd.

Edrychwn ymlaen at ddathlu 200 mlynedd yr achos yn 2028!

DILWYN JONES




**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

## Capel Pendref

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Gorffennaf dan ofal Y Parchedig Peter Jennings, Parch Tudur Rowlands a'r Parchedig Ganon Philip Williams. Yn ystod Awst cynhaliwyd oedfaon undebol Dinbych gyda gwasanaethau yn y Capel Mawr, Capel Lôn Swan, Capel y Fron a Chapel Pendref - roedd y gwasanaeth yma ym Mhendref dan ofal y Parchedig Marc Morgan a safodd i mewn i'r adwy yn lle'r Parchedig Tudur Rowlands oedd yn methu a bod gyda ni oherwydd gwaeledd. Diolchwn o waelod calon i'r Parchedig Marc Morgan ar ei ymweliad cyntaf a Phendref ac am ei wasanaeth. Gyrrwn ein dymuniadau am wellhad buan i'r Parchedig Tudur Rowlands.

Dydd Sadwrn Medi'r 7fed cynhaliwyd cyfarfod Cylchdaith Cymru ym Mhendref. Hwn oedd y cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn gyfundebol newydd.

Yn y prynhawn am 2 o'r gloch cynhaliwyd oedfa arbennig i groesawu gweinidog newydd i'r Gylchdaith sef y Parch. Ddr. Trevor Hoggard. Daeth ef a'i wraig Cathie o Seland Newydd ac mae'r ddau yn brysur yn dysgu Cymraeg. Bydd a gofal am Ardal Dyffryn Conwy, yn weinidog ar Ardal Dyffryn Clwyd ac yn Arolygwr Cylchdaith Cymru. Cawsom wasanaeth hynod o fendithiol dan arweiniad cadeirydd Synod Cymru, Y Parch. Ddr. Jennie Hurd.

Bore dydd Sul Medi'r 8fed cawsom y fraint o groesawu'r Parchedig Trevor Hoggard i Bendref. Hon oedd yr oedfa gyntaf iddo arwain a phregethu yng Nghylchdaith Cymru a gwnaeth hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyrrwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i nifer o'n haelodau sydd yn methu a mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd a dymunwn wellhad buan iddynt. Dymunwn ben-blwydd hapus i'n haelodau a fu'n dathlu eu pen-blwydd yn ystod Gorffennaf ac Awst.

Bydd Pendref ar agored yn ystod Penwythnos Drysau'n Agored yn Ninbych ar Fedi'r 28ain a'r 29ain a bydd croeso mawr i bawb i ymweld â'r "Capel Wesleaidd Cymreig Cyntaf yn y Byd".

Edrychwn ymlaen at ymweliad "Capel" (Cymdeithas Treftadaeth y Capeli) a Phendref ar Hydref 12fed. Bydd y gymdeithas yn cynnal eu cyfarfod blynyddol yn ystod yr ymweliad.

Byddwn yn cynnal ein cinio blynyddol dydd Sadwrn Tachwedd 9fed ym Melin Brwcws am hanner dydd.

Byddwn hefyd yn cynnal ein Ffair Hydref ar Dachwedd y 23ain yng Nghanolfan Eirianfa rhwng 10 ac 11 y bore.

# Y Cymdeithasau

### Cymdeithas Caledfryn

Cynhelir ein cyfarfodydd eto eleni ym Melin Brwcws, nos Wener ola'r mis ac i ddechrau'n brydlon am 7.15 yh.

Dyma restr o'r holl gyfarfodydd:-

Medi 27: Iwan Hughes 'Yr ysbïwr a'r gyrrwr trên – hanes dau Gymro yn America.'

Hydref 25: Jo Arwel Jones 'Helyntion y plismon – profiadau cyn-blismon yn Heddlu Gogledd Cymru.'

Tachwedd 29: J. Elwyn Williams 'Mab y Mynydd – anturiaethau cerdded/ mynydda.'

Ionawr 31: Elfed Evans 'Llwyddiant yr ieir.'

Chwefror 28: Martin Blythin 'Yn yr awyr - dysgu hedfan ar ôl ymddeol.'

Mawrth 27: Cinio Blynyddol yng nghwmni Tecwyn Ifan.

Ebrill: Ymweliad â Llaeth y LLan. Dyddiad i'w drefnu

Mi fyddwn eto eleni yn cludo un o aelodau Gateway i Ganolfan y Gymuned, Eirianfa bob nos Wener.

### CYMDEITHAS ALZHEIMER – CASGLWYR LLEOL YN Y CAE RAS.

Yn achlysurol mae *"Alzheimer's Society Cymru"* yn trefnu casgliadau mewn gwahanol ganolfannau fel archfarchnadoedd a theatrau, ac o dro i dro y tu allan i leoliadau fel caeau pêldroed a rygbi. Yn ddiweddar fe gynhaliwyd casgliad yn y Cae Ras, Wrecsam, ar nos Fawrth cyn y gêm yn erbyn Maidenhead United. Am wahanol resymau, tîm o chwech yn unig oedd ar gael ar y noson, gyda pump o'r criw yn dod o gyffiniau Dinbych.

Roedd Aled, Bryn a John o Ddinbych, gyda Cheryl (sydd wedi gweithio a gwirfoddoli i'r Gymdeithas am rai blynyddoedd) a Wayne o Lanrhaeadr, a David o Wrecsam ei hun.

Casglwyd bron i £200 ar y noson, swm digon teilwng ag ystyried maint y dorf o 3,667 – a gêm gyfartal o 2-2 gafodd Wrecsam!

**Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwirfoddoli i helpu'r Gymdeithas yn y dyfodol, fydd Cheryl yn hynod falch o gael clywed gennych ar 01745 890615.**



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

## CLWB GOSOD BLODAU

Croesawodd Felicity pawb yn ol yn dilyn seibiant yr haf a llongyfarch yr aelodau hynny a fu'n arddangos eu cynnyrch a'u doniau yn Sioe Flodau Dinbych.

Yr arddangoswraig oedd Jackie Lewis o'r Trallwng a'i thema oedd Fictoriana. 'Roedd ganddi ffidil hadau ar agor a bu'n siarad am y ffermwyr oedd mor brysur yn y caeau a hefyd ddarluniau Constable o gefn gwlad. Defnyddiodd amrywiaeth o ddeiliach, Tissle, hopys sychion ac amrywiaeth o flodau yn gymysg a'r deiliach.

Pwysigrwydd staesiau marched yn oes Fictoria symbylodd yr ail osodiad. ( Er bod rhai dynion yn eu gwisgo hefyd!) 'Roedd y cynhwysydd yn un tal gyda staes bach am ei ganol a chasgliad hyfryd o wyrdd-ddail, Blodyn Seithliw Glas a Gerbera Melyn. Hyfryd iawn.

Yr Arddangosfa Fawr ( The Great Exhibition) a drefnwyd gan y Tywysog Albert yn 1861 oedd y trydydd gosodiad pryd y gwahoddiwyd pobol o bob cwr o'r byd i'r digwyddiad. Defnyddiwyd cynhwysydd hirsgwar gwydr gydag amrywiaeth hyfryd o flodau, peli mwsog gwyrdd, Carnasiwns lliw hufen ac Anthurums gwyrdd.

Cefndir y pedwerydd gosodiad oedd gwneud y Frenhines Fictoria yn Ymerodres India. Addurn ar ffurf eliffant oedd y cynhwysydd gyda'r gosodiad, yn cynnwys bambw, Gerberas oren, Ffarwel Haf melyn a deiliach conifer. Crandrwydd a golud oedd symbyliad y pumed gosodiad gyda fas arian gyda fferlau o'i chwmpas, deiliach llwyd ac amrywiaeth o wahanol Lysanthus coch/las, Statice, Carnasiwns a Ffarwel Haf gwynion.

I orffen, defnyddiwyd powlen arian ar gyfer te parti Fictorianaidd – Blodyn seithliw glas, Anthurums gwyn, Carnasiwn pinc wedi eu gosod yn gylch. Gwnaed y diolchiadau gan Diana Williams. " Carwriaeth y Rhosyn" ( Romance of the Rose) fydd ysbrydoliaeth Wendy Davies o Langollen yn ein cyfarfod nesa ar Hydref 1af yn Ysgoldy'r Capel Mawr am 7.30 y.h.

Margherita Jones



## Beicio yn Llundain

Yn mis Awst llwyddodd Guto a Phil i gwblhau y sialens feicio yn Llundain. Ar ôl cael amser dechrau gwahanol mi lwyddon nhw i gyfarfod a cwblhau y mwyafrif o'r daith efo'i gilydd a gorffen mewn tua 6 awr a 50 munud o amser symud. Cawsant brofiad arbennig o gymryd rhan. Roedd llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd ar hyd y 100 milltir. Cododd Guto oddeutu £1700 i water aid a Phil £2500 i ymchwil cancr. Diolch yn fawr I bawb am eu noddi.






***THEATR BARA CAWS yn cyflwyno***

***LLEU LLAW GYFFES -***

***gan Aled Jones Williams***

***Ar daith 29 Hydref – 16 Tachwedd, 2019***

*Rhyw dduw-ceiniog-a-dima yw Lleu bellach, ac yn y ddrama eiconoclastig yma mae Aled yn archwilio'r syniad o fyth, ac os yw myth yn chwalu oes rhywbeth yn dal yno sy'n parhau yn werthfawr? Drama ddifyr, deifiol a chignoeth am golli ffydd ac am bosibilrwydd y tynerwch dynol all oroesi.*

*Cast: Carwyn Jones, Siôn Pritchard, Dyfan Roberts*

*Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd*

Nos Sadwrn 2 Tachwedd7.30

THEATR TWM O'R NANT, DINBYCH

Nos Fercher 6 Tachwedd7.30

THEATR JOHN AMBROSE, RHUTHUN






## RAS FAWR Y GOGLEDD

Sefydlwyd y *"Great North Run"* ym 1981 gan yr athletwr byd-enwog Brendan Foster. Hwn yw'r Hanner Marathon mwyaf yn y byd, gyda dros 57,000 yn rhedeg y cwrs rhwng Newcastle a South Shields eleni. Yn eu plith roedd tri aelod o'r un teulu, sef Rachel Jones a'i phartner Bryn Davies o Ddinbych, a Silas Jones, brawd Rachel, o Drefnant. Codi arain at elusennau sy'n agos iawn at eu calonnau oedd prif amcan y tri ohonyn nhw. Rhedeg ar ran y PSPA *("Progressive Supranuclear Palsy Association")* oedd Rachel, elusen sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef o'r cyflwr cas hwn ac yn ariannu gwaith ymchwil i mewn i'r salwch. Roedd Bryn yn codi arian tuag at elusen llawer mwy cyfarwydd, sef *"Alzheimer's Society Cymru",* gyda Silas yn cefnogi'r elusen *"Bloodwise"*, sy'n ariannu gwaith ymchwil ac yn cefnogi rhai sy'n dioddef o gancr yn y gwaed, megis leukaemia a lymphoma.

Byddwch yn falch o glywed fod y tri wedi casglu llond trol o arian i'w helusennau ac hefyd wedi llwyddo i gwblhau'r cwrs heb anffawd. Well i mi beidio datgelu eu hamseroedd, ond teg dweud fod Rachel a Bryn wedi croesi'r llinell gyda'i gilydd mewn llai na dwy awr a chwarter, gyda Silas ryw bedwar munud o'u blaenau. Mae'r tri yn hynod ddiolchgar i bawb a'u cefnogodd yn ariannol ac mewn ffyrdd eraill.

Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt!




O'r chwith i'r dde: Bryn, Rachel a Silas wrth y llinell derfyn yn South Shields

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

**DBP**
**Home Improvements N.Wales**

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 818849**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**





**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Mike Farnworth

Gorffennwyd ein cyfres ddarlithiau yn orchestol cyn seibiant yr haf pan ddaeth Mike Farnworth i siarad â ni am y Cymry yn Lerpwl. Roedd yr ystafell dan ei sang a phobl yn gwrando o'r tu allan. Soniodd am Gymreictod Lerpwl dros 2,000 o flynyddoedd, gan ddechrau gyda'r Brythoniaid oedd yn byw ar Lannau Merswy yn ogystal â Chymru. Roedden nhw'n siarad Brythoneg a Lladin a 'Llyr Pwl' oedd yr enw a ddefnyddient am Lerpwl, sef 'Môr Pwll'. Yn 600 OC cododd Offa fur i wahanu Cymru oddi wrth weddill y wlad, ac felly roedd Lerpwl yn rhan o deyrnas y Sacsoniaid o hynny ymlaen. Yn 1282 ymosododd y Normaniaid ar Gymru ac adeiladon nhw gestyll er mwyn rheoli'r Cymry gwyllt. O dan y Tuduriaid unwyd Cymru a Lloegr i fod yn un wlad. Dros y canrifoedd symudodd llawer o Gymry i Lerpwl i chwilio am waith Yn 1846 cyhoeddodd Gwilym Hiraethog bapur, 'Yr Amserau' yn Lerpwl ac roedd hysbysebion am swyddi yn y Gymraeg ar y dudalen flaen. "A Welshman and a Christian would be preferred," oedd geiriad un hysbyseb. Yn 1813 roedd 10% o boblogaeth Lerpwl yn Gymry a chynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yno dair gwaith. Erbyn hyn mae'n dal yn bosib i glywed y Gymraeg ar y stryd yn Lerpwl, yn arbennig ymhlith myfyrwyr.




Ymwelodd llawer o bobl â'r Amgueddfa dros gyfnod y gwyliau, gan gynnwys un arbennig, sef mab Gordon Whale, y dyn a gychwynnodd y Coleg Hyfforddiant Weiarles ym Mae Colwyn yn 1920. Mae cyfanswm yr 'ymweliadau' ar Flickr wedi codi i 178,000 erbyn hyn a chafwyd cryn ymateb i'n stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Flodau Dinbych.




Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanrwst

Yn ddiweddar, mae'r Amgueddfa wedi derbyn Radio Stereo Operette Telefunken a gynhyrchwyd yn 1969. Cwmni a sefydlwyd yn 1903 ym Merlin yn yr Almaen yw Telefunken ond cynhyrchwyd y radio arbennig yma yn Ontario, Canada, ar gyfer marchnad Gogledd America. O'r herwydd nid oes ganddo donfedd hir, achos dim ond yn Ewrop y defnyddir tonfeddi hir. Mae gan y radio donfedd fer ychwanegol yn lle.



Yn ogystal, rydym wedi derbyn set o 64 o ddroriau cydrannau a wnaethpwyd gan y perchennog, yn cynnwys amrywiaeth eang o gydrannau electronig fel transistorau, gwrthyddion a chynwysyddion. Rydym yn ddiolchgar iawn am rodd mor ddefnyddiol.

## Cyfres i Radio Cymru yn nodi 70 mlynedd ers sefydlu y Gwasanaeth Cenedlaethol

Rhwng 1949 a 1963 bu'n rhaid i fechgyn o Gymru rhwng 17 a 21 oed ymrestru yn y fyddin.

Cafodd dros gan mil o ddynion o Gymru eu gorfodi i adael eu cartrefi a'u teuluoedd er mwyn gwisgo lifrai milwr.

Dyma'r 'National Service' - y Gwasanaeth Milwrol Cenedlaethol. Dyma'r genedlaeth ddaeth i oed ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yr "in-betweeners - yn rhy ifanc i ymladd yn yr Ail Ryfel Byd, yn rhy hen i fwynhau'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth i bobl ifainc yn ystod y 1960au.

Mae Cwmni Silyn yn chwilio am gyfranwyr i son am eu profiadau yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer cyfres newydd i Radio Cymru.

Buoch chi neu un o'ch perthnasau yn un o'r "milwyr bychain"? Os do, rydym yn awyddus i glywed am eich hanes ar gyfer ein cyfres newydd.

Disgwyl mlaen i siarad gyda chi!

Cysylltwch gyda Gaynor Jones ar 07775 847710 neu drwy ebost preseli31@gmail.com.

Pob hwyl a diolch

Gaynor

Croeso i bawb i'n cyfres o ddarlithiau ar nos Wener am 19.00. Yn anffodus, bu raid i ni newid testun y ddarlith ar Hydref 18fed, oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Cyhoeddir y teitl newydd ar ein gwefan yn fuan.

Ar Dachwedd 15fed, bydd David Roberts yn sôn am "Edau ar draws y cefnfor, y cebl Trawsiwerydd cyntaf".

Ar Ragfyr 13eg, bydd David Crawford yn cyflwyno "Noson o Gerdyn Prawf y BBC a'r gerddoriaeth".

Bydd ein Bore Coffi Nadolig â Stondinau ar Ragfyr 7fed yn Eirianfa, ar y cyd â Mind Dyffryn Clwyd a Gild Eglwys St. Tomos, 10.00-12.00. Croeso cynnes i bawb fel arfer.

**EISTEDDFOD LLANDYRNOG 2019**

(Cystadlaethau hyd at 25 oed)

**Neuadd y Pentref, Llandyrnog**

**Nos Wener, 15 Tachwedd**

**am 5pm**

**Rhaglen/Rhagor o fanylion gan Manon Dafydd: 07766 489310**

**manondafydd@msn.com**

**Croeso cynnes i bawb**

## Ysgol Glan Clwyd

Dymunwn groesawu pawb yn ôl ar ddechrau tymor arall, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall i Ysgol Glan Clwyd. Rhown groeso arbennig i'n Pennaeth newydd, Mr Gwyn Tudur sydd wedi symud atom yn dilyn cyfnod o 7 mlynedd yn Ysgol Tryfan ym Mangor. Mae o'n edrych ymlaen yn arw at ddod i adnabod yr Ysgol a'i chymuned yn dda dros y misoedd nesaf.



Hefyd rydym yn croesawu 4 o athrawon newydd sef Cynan Glyn, Iwan Hanmer Roberts, Hannah Jones ac Ethni Medi, ac mae Tesni Jones wedi ymuno hefo ni i fod yn Gymhorthydd dosbarth. Gobeithio byddwch y byddant i gyd yn hapus hefo ni.

Mor braf hefyd oedd croesawu 198 o ddisgyblion i fewn i fl 7 a gobeithio y byddant hwythau hefyd yn ymdoddi'n hapus i deulu Ysgol Glan Clwyd. Yn yr un modd, dymunwn yn dda i'r myfywyr sydd wedi dychwelyd atom i flwyddyn 12 i astudio eu cyrsiau uwch gyfranol yn y 6ed dosbarth.

Dymunwn longyfarch yn wresog ein holl ddisgyblion a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a Safon Uwch yr Hâf hwn.

Rydym yn ymfalchio yn y ffaith ein bod yn cyd-weithio i baratoi ein disgyblion a'n myfyrwyr i fod yn ddinasyddion gwybodus, egwyddorol a dwyieithog, a dymunwn y gorau i bob un o'r rhain yn y cam nesaf yn eu gyrfa addysgol.

**Llongyfarchiadau** i'r holl ddisgyblion,staff a chyn ddisgyblion a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol feysydd dros yr hâf, nifer ohonynt yn flaellaw iawn yn y sioe fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol.

**Llongyfarchiadau** i Mr Tom Sandland ar enedigaeth ei ail ferch Bethan Mai ac i Mrs Mari Terschowetz ar enedigaeth ei ail phlentyn – Lleu Glynne Terschowetz. Llongyfarchiadau i Mr Dewi Owen ar ei briodas dros yr hâf.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn rhannu nifer o lwyddianau a phrofiadau cyffrous disgyblion Glan Clwyd gyda chi, ond ar ddechrau tymor fel hyn hoffwn ddymuno'n dda i dîm pêl-droed merched yr ysgol sydd yn bencampwyr presennol Cymru. Byddant yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan Rod Houston rhwng pencampwyr gwledydd Prydain. Byddant yn treulio tridiau ddiwedd Medi ym mhencadlys pêl-droed Lleogr yn Lilleshall, Swydd Amwythig. Pob lwc i chi ferched.

Mae nifer o gemau pêl-droed bechgyn a merched wedi eu trefnu ynghyd a gemau rygbi dros yr wythnosau nesaf. Hefyd mae Mr Aled Williams ein Swyddog 5 x 60 wedi trefnu nifer o weithgareddau i'n disgyblion gymryd rhan ynddynt dros yr amser cinio ac ar ôl ysgol.


Traed Fyny
Feet Up

'Helpa dy hun i wella'

Croeso i Traed Fyny

**Triniaethau holistig, proffesiynol a chyfeillgar yn Ninbych, Gogledd Cymru yn arbenigo mewn Adweitheg.**

Mae triniaethau holistig yn gwbl naturiol ac yn driniaethau nad ydynt yn ymledol. Maent yn gweithio'n effeithiol i adfer a chynnal cydbwysedd naturiol y corff, gan annog y corff i wella.

Mae Adweitheg yn hynod effeithiol wrth fynd i'r afael â nifer o bryderon corfforol a seicolegol, o boenau cyhyrol i anghydbwysedd hormonaidd, i wella cwsg, straen ac eglurder meddyliol.

Mae triniaethau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion iechyd a lles cleientiaid ar gael yn breifat neu yn y gweithle.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi roi eich Traed i Fyny?

Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth.

Nia Haf Jones CRM5 PRM MAR
Adweithegydd Clinigol
Clinical Reflexologist
07368 10 33 77
nia@traedfyny-feetup.co.uk
www.traedfyny-feetup.co.uk



SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
**01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

## MERCHED Y WAWR RHANBARTH GLYN MAELOR

**TAITH GERDDED RANBARTHOL:** Nos Fercher, Medi 18 cyfarfu bron i 40 o aelodau o'r gwahanol ganghennau yn Llangollen. Dewisodd rhai gerdded y daith hamddenol ar hyd y gamlas ac eraill y daith 4 milltir at Lantysilio, yna dilyn llwybr Coed Hyrddyn, wedyn heibio Abaty Glyn y Groes, ac yn ôl i Langollen. Ar ôl y cerdded aethom am bryd o fwyd i Dafarn y Britannia. Cafwyd noson hwyliog a difyr a phawb wedi mwynhau'r cerdded a'r bwyd.

**CWIS HWYL CENEDLAETHOL:** Fe'i cynhelir yn ôl yr arfer yn y Clwb Golff yn Ninbych, ar nos Wener, Tachwedd 8. Bydd cyfle i dimau o 4 gystadlu ar lefel ranbarthol a lefel genedlaethol. Mae pob rhanbarth drwy Gymru yn cynnal y cwis ar yr un noson a'r un amser, a bydd sgoriau uchaf pob rhanbarth yn cael eu gyrru i'r swyddfa yn Aberystwyth ar y noson er mwyn cyhoeddi pwy yw'r pencampwyr cenedlaethol ar Radio Cymru tua 10.30 yr hwyr. Dechreua'r noson am 7 o'r gloch. Cynhelir y cwis yn gyntaf, ac yna'r bwyd. Mae'r ffurflen gystadlu a'r wybodaeth am y dewis o fwyd gan ysgrifennydd pob cangen.

**Y FFAIR AEAF:** Cystadlaethau'r Ffair Aeaf yw
1. Crefft – Eitem mewn piws/pinc neu piws a pinc
2. Crefft – Carw (unrhyw gyfrwng)
3. Crefft – Golygfa Nadoligaidd (unrhyw gyfrwng)
4. Coginio – Bisgedi Nadolig wedi eu cyflwyno'n bwrpasol, e.e. mewn bocs, ar blât neu hongian ar goeden

Mae'r manylion cystadlu gan ysgrifennydd pobcangen.

**PROSIECT Y LLYWYDD CENEDLAETHOL:** Cofiwch fod eisiau inni fel mudiad gasglu 6000 o fagiau sbwriel ac ail-gylchu o fewn ein cymuned leol erbyn Tachwedd 11, sef un bag o sbwriel am bob aelod. Mae ffurflen i gofnodi cyfraniad pob cangen gan bob ysgrifennydd cangen.

**DYDDIADAU CENEDLAETHOL O BWYS ar gyfer 2019:** Cynhelir yr Is-bwyllgorau Cenedlaethol Hydref 5, y Pwyllgor Rhyng-ranbarthol ar Hydref 19, y Cwis Cenedlaethol Tachwedd 8, a'r Ffair Aeaf Tachwedd 25 a 26.

## Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Mae'n fis Hydref ac mae'r cnau yn aeddfedu ar y coed cyll a'r hen wiwer yn gorfod penderfynu ble i gadw nhw yn ddiogel dros fisoedd y gaeaf. Rhaid iddi wneud yn siŵr bod digon i'w chadw hi i fynd tan y gwanwyn. Wrth feddwl am gnau dw i'n cael atgofion o fy nyddiau cynnar yn Llanallgo, sir Fon. Roedd Mam a Dad yn mynd â ni efo bagiau i le ar gyrion Marianglas ble roedd mwy na ddigon ar y coed. Dw i'n siŵr roedden ni'n casglu llawer mwy nag o'n ni eisio ar gyfer ein hunain a chnau mwnci dw i'n cofio cael adeg y Dolig. Tybed a oedden nhw'n eu gwerthu er mwyn cadw'r blaidd o'r drws. Fel rheithor y plwyf doedd y tâl ddim yn ddigon i'n cadw'n ofnadwy o gyfforddus er doedden ni byth yn llwgu ac roedden ni'n hapus dros ben.

Ar hyn o bryd mae'r coed yn llawn lliwiau a phob math o eirin yn hongian yn drwm. Os dach chi'n hoffi tynnu lluniau dyma amser da i grwydro, gwisgwch yn dda a chadwch eich llygaid ar agor - mae byd natur yn ddiddorol!

Mae'r Gymdeithas yn trefnu teithiau maes pob dydd Sadwrn mewn tair rhan o Gymru ac mi fydd croeso mawr i chi ymuno a ni. Os dach chi'n dysgu, neu wedi dysgu, wel dyma eich cyfle i ymarfer eich siarad ac, ar yr un pryd dysgu am fyd natur. Beth amdani? - Sadwrn Siarad pob dydd Sadwrn! Mae rhaglenni'r tair ardal ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru

Edrych ymlaen at eich gweld chi.



Merched y Wawr o wahanol ganghennau Rhanbarth Glyn Maelor ar ddechrau eu taith gerdded yn ardal Llangollen


**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**

## Atebion Gorffennaf 2019

**Ar Draws :**
1. Llwynog
4. Basged
9. Diog
10. Seicolegydd
11. Niwlog
12. Ymbincio
13. Presennol
15. Adar
16. Cwcw
17. Ymlusgiaid
22. Cofadail
23. Didoli
25. Absenoldeb
26. Siom
27. Latfia
28. Brandi

**I Lawr :**
1. Lleifior
2. Ysgol
3. Ocsigen
5. Amoeba
6. Gweinidog
7. Drymiwr
8. Diwyro
14. Sacrament
16. Crombil
18. Melodi
19. Undebwr
20. Adleoli
21. Daloni
24. Dwsin

## CROESAIR HYDREF 2019




**Ar Draws :**
1. ee tibia neu wlna
4. (a 7 i lawr) Clywyd y gân hon yn aml eleni (5,5,1,7)
8. Lle mae'r A470 yn cychwyn, neu'n gorffen
9. Mamal sy'n nofiwr da
10. Rhoi enw drwg i rywun
12. Pentref ger Wrecsam
13. Elfen gemegol, rhif 10 yn y tabl cyfnodol
14. Tlawd
16. Brodorion prifddinas Yr Eidal
18. Offer mândyllog i wahanu gronynnau bach a mawr
19. Petryal yw'r enw cywir ar hwn
21. Un sy'n talu rhent
22. Rhannau angenrheidiol o gorff aderyn ac awyren
23. Astudiaeth o'r meddwl
25. Yr hyn a synhwyrir gan y trwyn
26. Casglu ffrwyth (duon) o'r perthi

**I Lawr :**
1. Cymar 24 i lawr
2. Pobl yr Hen Ogledd
3. Cystadleuaeth marchogaeth (yn UDA)
4. Cytundeb i beidio rhyfela
5. Ffrwyth a fwyteir gyda hufen yn Wimbledon
6. Anifail fel hyn yw amoeba
7. g 4 ar draws
11. Pwyntio i gyfeiriad arbennig
14. Adfywiol
15. Offeryn mewn capel neu eglwys
17. Awgrymu rhywbeth annymunol
18. Cwch ar gamlesi Fenis
20. Gwlad enfawr yn Asia
21. Tadau lloi
24. Cymar 1 i lawr


BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# Wythnos o ddathlu wrth i Sir Ddinbych baratoi i groesawu Eisteddfod yr Urdd

Urdd

Mae wythnos gyntaf fis Hydref yn argoeli i fod yn wythnos brysur iawn i drigolion Sir Ddinbych wrth iddynt baratoi i ddathlu a chroesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'r sir ym mis Mai 2020.

**Cyngerdd a Jambori CânSing**

Ar **3 Hydref** bydd Theatr Pafiliwn y Rhyl dan ei sang wrth i dros 1000 o blant yr ardal ddod ynghyd i groesawu'r Eisteddfod i Sir Ddinbych mewn Jambori dan arweiniad Jenny Pearson o CânSing a Welsh National Opera. Ar y noson honno hefyd, cynhelir cyngerdd sy'n ddathliad arbennig o dalentau lleol. Mae artistiaid y noson yn cynnwys Côr Cytgan Clwyd, Academi Indigo, Only Boys Aloud, Welsh National Opera ac Ensemble Pres Hŷn DMC ynghyd a chôr arbennig o 250 o blant o ysgolion Llywelyn, Y Castell, Emmanuel, Christchurch a Trefnant a fydd yn canu gyda Kiefer Jones , sef unawdydd o WNO. Bydd Nic Parry yn arwain y noson.

Mae tocynnau ar gyfer y cyngerdd ar gael o Theatr Pafiliwn y Rhyl am £10 i oedolion a £5 i blant drwy ffonio 01745 330 000.

**Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2019**

Fel rhan o'r Ŵyl Gyhoeddi ar **ddydd Sadwrn, 5 Hydref**, bydd Band Cambria yn arwain gorymdaith fydd yn cychwyn am 11 o'r gloch o Ysgol Uwchradd Prestatyn gan deithio drwy'r dref tuag at erddi Bastion am brynhawn o adloniant am ddim i'r teulu cyfan. Disgwylir dros 2000 i ymuno yn yr hwyl.

Bydd Huw ac Elin o griw Cyw ar S4C, Band Pres Hŷn Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych, Y Trwbz a pherfformiadau gan ysgolion ac adrannau yr Urdd Sir Ddinbych yn diddanu o'r llwyfan yn ystod y prynhawn.

Yn ogystal â'r perfformiadau ar y llwyfan, bydd nifer o stondinau ac amrywiaeth o weithgareddau ar gael gan gynnwys sesiynau chwaraeon a sesiwn sgiliau syrcas gyda Cimera.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh Evans OBE:

"*Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael croesawu'r Eisteddfod yn ôl i Sir Ddinbych.*

*Mae 'na lawer o gyffro eisoes yn y sir, gyda chymunedau wedi bod yn brysur yn casglu arian drwy gynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau.*

*Mae traddodiad eisteddfodol a diwylliannol gref yma yn Sir Ddinbych ac mae unigolion brwdfrydig wedi cydweithio gyda'r Urdd i drefnu gŵyl i'w chofio.*

*Edrychwn ymlaen at gael estyn croeso cynnes i bawb i'r ŵyl gyhoeddi cyn i'n sylw droi at y brif ŵyl fydd yn cymryd lle ym mis Mai 2020 ac i ddangos i weddill Cymru lle mor brydferth a chroesawgar yw Sir Ddinbych."*

Ychwanegodd Cyfarwyddwr dros dro Eisteddfod yr Urdd, Morys Gruffydd,

*"Mae'n argoeli i fod yn wythnos brysur iawn yn ardal y Rhyl a Phrestatyn ac rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Sir Ddinbych, y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith, y cynghorau, mudiadau a'r sefydliadau lleol i gyd am eu croeso a'u cefnogaeth wrth i ni baratoi i ddod â'r ŵyl i'r sir.*"

**Cystadleuaeth Faneri**

Anogir ysgolion ac adrannau i ddylunio a chreu baneri i'w cario wrth orymdeithio er mwyn tynnu sylw at ddyfodiad yr Eisteddfod i'r ardal. Bydd y faner orau yn derbyn gwobr ariannol a chaiff yr holl faneri eu harddangos yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych a gynhelir ar dir Fferm Kilford ger tref Dinbych rhwng 25 – 30 Mai 2020.






## Pwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020

Gydag 8 mis i fynd tan Eisteddfod yr Urdd, mae'r gwaith codi arian a'r gweithgareddau yn parhau. Mae nifer o weithgareddau wedi bod a rheini'n llwyddiannus iawn, fel yr Arwerthiant Addewidion, a noson Rhedeg yn ôl i Baris. Diolch i chi am eich cefnogaeth hyd yma, rydym wedi llwyddo i gasglu dros £36,000.

Mae dipyn o ffordd i fynd eto cyn cyrraedd targed y dref, sef £60,000. Dyma rai o'r digwyddiadau sydd i ddod dros y misoedd nesaf –

- ☐ Noson yng nghwmni Dylan Cernyw 12/11, Clwb Golff Dinbych
- ☐ Bore gyda Deian a Loli 16/11, Neuadd Twm
- ☐ Gig Bryn Fôn 25/01, Neuadd y Dref

Cadwch olwg am bosteri a hysbysebion gyda rhagor o fanylion cyn hir! Neu dilynwch ni ar Facebook a Twitter ac Instagram -

Facebook – Pwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod 2020 Denbigh Appeal Group
Twitter – @PADURDD2020
Instagram – PADURDD2020

# Ni ddaw ddoe byth yn ôl

Yn y stydi yma, mae gen i gopi o gylchgrawn Saesneg, plwyf Dinbych, am y flwyddyn 2007.

Ynddo, ymysg pethau diddorol eraill. mae erthygl Saesneg gan y diweddar Miss Phyllis Vaughan, a hithau bryd hynny mewn gwth o oedran, yn adrodd ei hatgofion hithau am ei bywyd hir yma yn Ninbych.

Ei hatgof cyntaf o ddigwyddiad cyhoeddus yn y dref oedd dadorchuddiad y gofeb filwrol ar sgwâr y Goron, un prynhawn Dydd Gwener, 1922, gan Robert Jones oedd wedi ei glwyfo'n ddifrifol yn ystod y rhyfel. Cysegrwyd y gofeb gan y Rheithor, Y Canon Redfern.

Y flwyddyn ganlynol, yn ôl Miss Vaughan, daeth Dug Windsor yma i Ddinbych ar ymweliad! Codwyd llwyfan o flaen Neuadd y Sir (y llyfrgell bresennol) ac yr oedd nifer o lanciau mentrus wedi dringo rhywsut i ben y siop gyferbyn ar ben Stryd y Dyffryn, fel eu bod yn gweld y gweithgareddau yn well.

Fel unig blentyn, fe gafodd Phyllis ddigon o sylw gan ei mham. Cyn dechrau mynd i'r ysgol, bu rhaid iddi ddysgu golchi a smwddio dillad ei doliau. Yn ei hatgofion aeth hi i'r drafferth o ddisgrifio'n fanwl pob eitem o'i dillad hi ei hunan. Am y tro, esgusodwch fi rhag gorfod ail adrodd y cymhlethdod. Un peth oedd yn amlwg iawn – 'doedd naill ai genethod na gwragedd yn mentro mynychu oedfa grefyddol heb wisgo het! Rhaid cyfaddef fy mod i'n ddigon o oed i wingo wrth weld dynion mewn gwasanaeth, heb wisgo tei. Efallai mai arna i mae'r bai am hynny!

Yn bump oed, aeth Phyllis i Ysgol yr Eglwys ym Mhwll y Grawys ac 'roedd mynediad i adrannau'r babanod a'r genod wrth dafarn yr Hand. Dwy o'r athrawesau enwodd Phyllis oedd Miss Gwladys Price, y brifathrawes a hefyd yr organyddes yn y gwasanaethau Eglwysi Cymraeg, a hefyd Miss Ruby Edwards. Weithiau byddai Roger Preis, y plismon plant, yn galw yn enwedig pan yr oedd problem gydag absenoldeb.

O saith oed i fyny, rhanwyd y plant yn fechgyn a genethod, a'u gosod ar wahan, ac yno yr oedd pob plentyn yn aros hyd nes yr oedd yn bedair ar ddeg oed, hyn onibai eu bod yn llwyddo i basio'r arholiad oedd yn caniatau mynediad i'r Ysgol Sirol. (Y Cownti) – y bechgyn i Lôn Ganol, yma yn Ninbych, a'r genod i Rhuthun.

Yn yr ysgol fawr, dan brifathrawiaeth Miss Edwards, yr oedd disgwyl iddynt ganolbwyntio ar destunnau fel Hanes, Daearyddiaeth, Rhifyddeg, ac yn y blaen, a hefyd ysgrifennu traethodau. Gan mai Ysgol Eglwysig oedd hon, unwaith yr wythnos yr oeddynt yn gorfod mynychu gwasanaethau crefyddol yn Eglwys y Santes Fair gerllaw. Arweinwyd y gwasanaethau gan un o'r ddau giwrad oedd yn Ninbych bryd hynny y ddau yn trigo yn Clergy House ar Stryd y Dyffryn, ar y gornel gyda Lôn Bîg.

Ar y nos Iau, yn dilyn Sul y Deisyfiad, byddai gŵr bonheddig, a benodwyd mewn amser yn Ficer Llannefydd, yn trefnu gorymdaith grefyddol i aelodau'r Eglwys, yn oedolion a phlant, drwy'r dref i Eglwys Dewi Sant. Yno yr oedd yn cynnal gwasanaeth arbennig i fendithio'r ddaear. Adeg y Cynhaeaf, byddent yn mynd âblodau a llysiau i'r ysgol i'w defnyddio i addurno'r eglwysi, naill ai Eglwys y Santes Fair neu Eglwys Sant Iago (y Mission) yn Stryd Henllan, ac wedyn byddai'r cynnyrch yn cael ei gyflwyno i'r Inffyrmari. Dymchwelwyd y Mission yn y 1960'au a phleser i Phyllis oedd gweld bod yr allor wedi ei hail osod yn Eglwys y Santes Fair.

Yn ystod yr haf, arferent fwynhau cyngerdd gan blant Ysgol Hywel, ac un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, yn ystod y Nadolig oedd gwylio eu drama o'r enedigaeth sanctaidd.

Trwy'r cyfnod 1920-1930, yr oedd bywyd yn galed a byddai rhai o'r bechgyn yn yr ysgol (drws nesaf) yn cyflawni tasgau syml ac yn derbyn siwtiau fel cydnabyddiaeth am eu gwaith gan elusen Y Gôt Las, a hon oedd yn talu'r costau. I helpu'r tlodion yr oedd y Cyrnol Wynne Edwards, oedd yn berchen gerddi ar Ffordd Ruthun, yn caniatau i'r dynion di-waith dyfu llysiau yna. Dyma'r amser y cododd Ysgol Hywel arian i ddarparu cae chwarae ym mhen ucha'r dref sydd hyd heddiw'n dal a'r enw, Cae Hywel. Cyn yr ail ryfel byd, yr oedd Ysgol Sul lwyddiannus iawn yn cael ei chynnal yn yr Eglwys Wen gan Mrs Moses Parry ac yr un pryd yr oedd gan Mr Palmer a Mr Elsi Roberts Ysgol Sul o bedwar ar hugain o ddosbarthiadau yn yr Institiwt yn Mhwll y Grawys. Unwaith y flwyddyn, trefnwyd gwibdeithiau i'r Rhyl ar y



tren, ac un flwyddyn aethant i New Brighton.
Cyn belled ac yr oedd Phyllis yn cofio, yr oedd tri gwasanaeth yn Y Santes Fair bob Sul, cyfarfodydd Saesneg yn y bore am 8am. a 10.30am. a Chymraeg yn y nos am 6.30pm. Yn Eglwys Dewi Sant yr oedd Cymun am 8am, cyfarfod Cymraeg am 10.30am a chyfarfod Saesneg am 6.30pm. Yn ystod y rhyfel, cynhaliwyd y gwasanaethau nos yn ystod y prynhawn o achos y 'blackout', ac wrth gwrs ni chenid y clychau. Yr oedd corau dynion a bechgyn o safon uchel iawn gyda Mr Martin Stephen yr organydd yn y gwasanaethau Cymraeg a Mr Hywel Smith a Mr Bellamy yn gofalu am yr oedfaon Saesneg.
Miss Edwards, prifathrawes Ysgol y Genethod oedd yn trefnu Cymdeithas y merched tra yr oedd Herbert James (wedyn yn ficer Llanrhaedr a'r Mwynglawdd) yn rhedeg y Gymdeithas Lenyddol gyda chymorth Teddy Morgan a Chris Askew (yntau'n fab i Mr Askew yn athro Cemeg yn yr Ysgol Sirol). Gyda'r nos yr oedd yr Institute ar agor i'r bechgyn gael chwarae biliards a gemau eraill. Hefyd yr oedd clwb i'r genethod, ac fel ymhob plwyf arall, 'roedd 'na undeb y mamau. Unwaith y mis, ar brynhawn Sul, byddai'r dynion yn trefnu gwasanaeth yn y Santes Fair.
Derbyniodd Phyllis fedydd Esgob, Ddydd Sul, 31ain o Fawrth 1935, gan Dr Howard, Esgob Llanelwy ar y pryd.
Mi roedd Phyllis yn cofio saith Rheithor yma yn Ninbych – Y Parchedigion Maurice Hughes, Hywel Davies, Cyril Williams, Bryan Williams, Robert Williams, John H. Davies a J. Smith. Ymhlith y curadiaid yr oedd y Parchedigion Hugh Jones, Robert Davies, Leonard Glyn Thomas, Vaughan Edwards, J. Roberts, Gwen Davies, Arthur Jones, W. C. Dickens, Ifor Phillips, D. Alun Griffiths, J. Lewis Jones, Graham Hancock, Ceri Evans, David Hart, Neil Taylor, Nigel Williams a Margaret Baker.
O 1939 ymlaen, bu nifer o filwyr yma yn y dref a llawer ohonynt yn gefnogol i'n capeli a'n heglwysi – rhai o'r Unol Daleithiau ac eraill o wlad Siam. Bu rhai yn gwersylla fan ble mae Ystrad Miltwn heddiw a hefyd ar gaeau'r Parciau. Yn yr hen Eirianfa, yn Llain y Ffatri, yr oedd Pencadlys yr Home Guard.
Yn ystod y rhyfel yr oedd cangen gref o'r Rotari a hwy oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth ambiwlans cyntaf yn Ninbych.
Do, fe welodd Phyllis Vaughan newidiadau sylweddol gyda dyfodiad yr archfarchnadoedd a nifer o siopau bychain yn diflannu, y stesion, canolfan bysiau'r Crosville ym Mhwyll y Grawys, marchnad anifeiliaid y Smithfield a hefyd yr Ysbyty Meddwl yn cau. Mae sawl eglwys a chapel wedi gorfod cau'r drysau – Capeli'r Bedyddwyr, Tower Hill, Bodawen a Salem ynghyd a'r Mission yn Stryd Henllan, a beth am Ysgolion Pwll y Grawys, Lyf Lôn, Frongoch a'r Ysgol Sirol?
Ers ymadawiad Miss Vaughan mae nifer eraill o newidiadau. Tybed beth fyddai atgofion rhywun yn disgrifio'r cyfnod hyd at 2070? Tybed fydd na ffasiwn beth a phrint ar bapur?

*RM (Bobi) Owen*

## Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ar lysoedd Cymru a Lloegr.



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llysoedd y Deyrnas Undedig (DU) wedi parhau i fod yn fforwm boblogaidd ar gyfer gwrando achosion o anghydfodau rhyngwladol. Mae tua 75% o bartïon yn dod o dramor. Ond sut fyddai Prydael heb gytundeb yn effeithio ar ddatrys anghydfodau yng Nghymru a Lloegr?
Yn mis Medi 2018 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllaw ar ymdrin ag achosion sifil sy'n cynnwys gwledydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) os nad oes cytundeb Prydael. Mae'r canllaw yn amlinellu sut y byddai'r rheolau ar gyfer achosion sy'n cynnwys un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn newid.
Petai dim cytundeb Prydael ni fyddai rheoliad Brwsel I 2015/2012 yn berthnasol ac ni fyddai gorchmynion llys a wnaed yn y DU yn gallu cael eu gorfodi yn yr UE. Golyga hyn pe byddai gan unigolyn ddyfarniad yn erbyn – er engraifft, parti ag asesion yn Ffrainc neu Sbaen ni fyddai'n bosib cael gafael ar yr asedion hefo dyfarniad a wnaed yng Nghymru neu Loegr.
O dan reoliad Brwsel I 2015/2012, mae'r rheolau'n helpu i benderfynu a ddylai achos gael ei gynnal pan fo materion trawsffiniol yn codi rhwng y DU ac awdurdodaethau eraill yr UE. Yn ogystal, maent yn caniatáu'r gydnabyddiaeth a gorfodaeth gorchmynion sifil a masnachol rhwng y DU a gwledydd yr UE sydd yn ddefnyddiol i ni.
Ni fyddai y DU bellach yn rhan o fframwaith cydweithredu barnwrol sifil yr UE os na fydd cytundeb. Yn syml, ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth gytûn ar gyfer cydbwysedd barnwrol sifil rhwng y DU a gwledydd yr UE. Hyd yn hyn, mae confensiynau rhyngwladol a rheoliadau'r UE wedi delio ag achosion o'r fath, sy'n berthnasol i'r DU naill ai oherwydd eu bod yn llofnodydd neu yn sgil ein aelodaeth o'r UE. Fodd bynnag, os na fydd cytundeb ni fydd rheoliadau'r UE sy'n gweithredu ar sail dwyochredd yn berthnasol i'r DU. Yn ogystal, bydd y confensiynau rhyngwladol, sydd ond yn berthnasol i'r DU ar hyn o bryd oherwydd ei aelodaeth o'r UE, yn dod i ben, oni bai bod cytundeb yn cael ei drafod neu fod y DU yn ailymuno â'r confensiwn. Felly, oni bai bod trefniadau amgen i sicrhau dwyochredd yn cael eu negodi wrth adael, bydd cyfraith leol yr awdurdodaeth berthnasol yn parhau. Mae hyn eisoes yn wir wrth geisio gorfodi dyfarniad a wnaed yn y DU mewn gwladwriaeth y tu allan i'r UE - er enghraifft, yr UDA.
Fodd bynnag, os bydd achos yn cael ei ddechrau rhwng partion o'r DU ag un o wledydd yr UE cyn i Brydain adael yr UE, a cyn y daw'r cyfnod trosiannol i ben ar y 30ain o Ragfyr 2020, mae'n bosib y bydd y drefn gorfodi bresennol yn parhau i fod yn berthnasol.
Pwy a ŵyr beth a ddaw.

Lois Griffiths
Cyfreithwraig dan Hyfforddiant
Guthrie Jones a Jones

# DARLLEN YN WELL

**Gall llyfrau fod y feddyginiaeth orau: Pennod newydd ar gyfer presgripsiynau iechyd meddwl yng Nghymru**

**O heddiw (26 Mehefin), bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu rhoi llyfrau am ddim ar bresgripsiwn i gynorthwyo pobl i reoli eu hiechyd meddwl neu ddelio â theimladau a phrofiadau anodd yn yr hyn a elwir yn 'bibliotherapi' gan arbenigwyr sydd y tu cefn i'r cynllun.**

Mae'r cynllun *Llyfrau Darllen yn Well ar Bresgripsiwn ar gyfer iechyd meddwl* wedi cael ei ddatblygu gan y Reading Agency a llyfrgelloedd cyhoeddus, sefydliadau iechyd blaenllaw gan gynnwys Coleg Brenhinol y Seicatryddion, Mind, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, Cymdeithas Seicoleg Prydain a'r Coleg Nyrsio Brenhinol, ynghyd ag unigolion sydd â phrofiad personol o anghenion iechyd meddwl a'u perthnasau a'u gofalwyr.

Mae'r cynllun yn cael ei lansio heddiw yng Nghymru yn dilyn ei lwyddiant yn Lloegr sydd wedi gweld 931,000 o bobl yn benthyca dros 2 filiwn o lyfrau Darllen yn Well o lyfrgelloedd cyhoeddus.

Dywedodd Debbie Hicks, Cyfarwyddwr Creadigol y Reading Agency: "Bydd un mewn pedwar ohonom yn wynebu anhawster iechyd meddwl ar ryw adeg yn ystod ein bywydau. Mae gallu wedi'i brofi gan ddarllen i helpu pobl i reoli eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain. Mae'n rhoi pleser mawr i ni lansio'r rhaglen hon sy'n newid bywydau yng Nghymru, gyda nifer o'r llyfrau ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf, gan alluogi'r cynllun i gyrraedd hyd yn oed mwy o bobl."

Bydd copïau am ddim o'r llyfrau ar gael i aelodau'r cyhoedd eu benthyca o lyfrgelloedd cyhoeddus y 22 awdurdod i gyd yng Nghymru o'r 26 Mehefin, ynghyd â deunyddiau hyrwyddo ategol gan gynnwys taflenni sy'n cynnwys y rhestr lyfrau. Mae'r Reading Agency yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i gyfieithu rhai o'r llyfrau i'r Gymraeg ac mae holl ddeunyddiau'r rhaglen yn ddwyieithog. Gall gweithiwr iechyd proffesiynol argymell y llyfrau ac y gellir eu benthyca yn rhad ac am ddim o lyfrgell leol, neu gall defnyddwyr atgyfeirio eu hunain a benthyca'r teitlau fel y byddent gydag unrhyw lyfr llyfrgell arall.

Dywedodd yr Athro Neil Frude, seicolegydd clinigol ymgynghorol a sylfaenydd menter Llyfrau ar Bresgripsiwn gwreiddiol Cymru: "Mae Llyfrau Darllen yn Well ar Bresgripsiwn ar gyfer iechyd meddwl yng Nghymru yn adnodd ychwanegol defnyddiol a hynod o gost effeithiol i gynnig help seicolegol i nifer o bobl ar draws y wlad. Amcangyfrifir fod dros 40,000 o oedolion yng Nghymru ar hyn o bryd gyda diagnosis o gyflwr meddyliol. Mae yna nifer o ffyrdd arbennig o effeithiol, diolch am hynny, o gyflwyno help seicolegol, gan gynnwys y defnydd o lyfrau hunangymorth a ysgrifennir gan glinigwyr arbenigol, a adwaenir fel 'bibliotherapi' fel arall.'

"Mantais y cynllun hwn yw ei fod yn argymell y llyfrau gorau oll ac yn eu cyflwyno am ddim trwy'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn y ffordd hon, mae budd ychwanegol i'r cynllun gan ei fod yn denu mwy o bobl i'r llyfrgell, yr ased cymunedol amhrisiadwy hwnnw, lle y byddant yn dod o hyd i adnoddau eraill a all helpu i roi hwb i'w lles, meithrin cydnerthedd a helpu rhywun i ffynnu."

Mae'r casgliad o 37 llyfr yn cynnwys gwybodaeth ar iechyd, hunangymorth a storïau personol ysbrydoledig, megis *Reasons to Stay Alive,* gan Matt Haig, yr awdur sydd wedi ennill gwobrau, sy'n archwilio ei brofiadau personol megis dod yn agos at gyflawni hunanladdiad yn 24 mlwydd oed, a'r *Recovery Letters,* sef detholiad o lythyrau teimladwy o'r galon a ysgrifennwyd gan bobl sydd wedi cael adferiad neu'n gwella o iselder.

Dywedodd yr awdures, Malan Wilkinson o Griceth, Gogledd Cymru, a llysgennad dros Lyfrau Darllen yn Well ar Bresgripsiwn ar gyfer iechyd meddwl: "Mae wedi bod yn flwyddyn ers i mi ysgrifennu fy llyfr am fyw gyda chyflwr iechyd meddwl ac mae'n wir dweud fod darllen ac ysgrifennu am fy mhrofiadau wedi bod yn amhrisiadwy i'm hiechyd fy hunan. Wedi chwe blynedd o fyw ag anawsterau iechyd meddwl, mae'n wych gweld y cynllun hwn yn cael ei lansio yng Nghymru. Bydd cael y casgliad hwn o 37 o lyfrau hunangymorth o help mawr i bobl ar draws y wlad."

Dywedodd Ainsley Bladon, Arweinydd Strategaeth Iechyd Meddwl o fewn Llywodraeth Cymru: "Mae'r cynllun Darllen yn Well, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cyflwyno cyfle gwych yng Nghymru - i barhau ag etifeddiaeth ein Cynllun Llyfrau ar



Debbie Hicks

Bresgripsiwn yng Nghymru, i rymuso unigolion i reoli lles eu hunain gan ddefnyddio dulliau iechyd cyhoeddus, ac i gynnig ystod lawn o deitlau iaith Gymraeg, yn unigryw, o fewn llyfrgelloedd, gan gynrychioli'r prosiect cyfieithu mwyaf erioed a gyflawnwyd yng Nghymru."

Dywedodd Nic Pitman o fewn Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru (SCL Cymru): "Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ganolfannau cymunedol hanfodol i gefnogi iechyd a lles, ac mae'r rhestr hon o deitlau a gefnogwyd gan arbenigwyr yn ffordd arall y gallwn gefnogi iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae SCL Cymru yn hynod o gyffrous o weithio gyda'r Asiantaeth Ddarllen i gyflwyno'r rhaglen hon sydd wedi'i chefnogi'n eang gan weithwyr iechyd proffesiynol fel rhan o'n hymgyrch i hyrwyddo iechyd meddwl da."

Nod y cynllun yw gwneud cyhoeddiadau gwybodaeth am iechyd ar gael yn haws i aelodau'r cyhoedd. Mae'r cynllun Llyfrau Darllen yn Well ar Bresgripsiwn yng Nghymru wedi'i lansio gan y Reading Agency a Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Am ragor o wybodaeth ar Lyfrau Darllen yn Well ar Bresgripsiwn ar gyfer iechyd meddwl, edrychwch ar: https://reading-well.org.uk/wales**

# Llyfrgell Dinbych yn dathlu 30

Lluniau ar dudalen 2

Fore Mercher, Medi 4ydd buom yn dathlu 30 blynedd ers ymsefydlu'r Llyfrgell yn Sgwâr y Neuadd. Agorwyd y llyfrgell yma yn 1989 yn nyddiau Cyngor Sir Clwyd dan arweinyddiaeth Mr Gwyn Williams, Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth Clwyd. 'Roedd hi'n braf iawn ei groesawu nôl atom a'i glywed yn siarad am hanes sefydlu'r llyfrgell yn yr adeilad presennol.

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler agorodd y dathliad a chafwyd bore difyr yn hel atgofion, edrych ar arddangosfa o luniau a mwynhau paned a chacen gyda nifer o ffrindiau a defnyddwyr y llyfrgell. 'Roedd staff wrth law i ddangos yr holl wasanaethau sydd gan y llyfrgell i'w gynnig heddiw gan gynnwys y gwasanaeth ar-lein.

**Crefft i blant**

Dros wyliau'r haf buom yn brysur yn cynnig sesiynau crefft gyda'r plant. 'Roedd y plant wrth eu boddau yn cael gwneud gwahanol grefftau ar thema Y Ras Ofod gan mai dyma deitl y Sialens Ddarllen i blant eleni. Mae bron i 600 o blant wedi cychwyn ar y sialens a bydd bob plentyn sydd yn cwblhau y sialens yn cael tystysgrif a medal.

# Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

Bu'r wythnosau yn arwain at yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhai prysur iawn, plant a phobl ifanc yn mynd a dod a minnau yn ceisio rhoi amser teg i bawb i ddysgu'r caneuon a mynd dan groen pob gair.

Mae'r rhai ieuenga' yn hoffi cael digon o amser i ymarfer rhyw 5 wythnos cynt, ond y rhai hŷn yn dueddol o adael petha' tan y funud ola' i ddod draw am sglein a pholish. Roedd hi'n bleser cael dysgu pob un ohonyn nhw, a phetawn i'n cael fy ffordd, mi fyddai'r cyfan yn cael y wobr gynta', wrth gwrs!

Yn ogystal â rhoi gwersi adref ac yn yr ysgolion, roedd gen i ymarfer Côr Lleisiau'r Nant bob nos Fawrth yn Festri Capel y Fron. Roedd y gefnogaeth i'r Côr eleni yn ardderchog; nifer fawr o wynebau newydd wedi ymuno, ac roedd dros gant ohonom yn cerdded i'r llwyfan yn Llanrwst.

Does dim yn rhoi mwy o bleser i mi na chlywed fod rhai o'm disgyblion wedi cael llwyfan, - mi fydda' i'n sicrhau fy mod i yn y Pafiliwn i'w cefnogi. Ac yn wir, mi gafodd sawl un lwyddiant. Dyma restr ohonynt, os cofia i'n iawn –

Unawd Alaw Werin dan 12 – 1.Lowri Jarman (Llanuwchllyn ), 2il Becca Fflur Edwards (Dinbych ) a 3ydd Becca Hogg (Yr Wyddgrug )

Unawd dan 12 – Eiri Evans (Rhuthun )

Unawd bechgyn dan 16 – Ynyr Rogers (Efenechtyd )

Unawd Cerdd Dant dan 21 – Llio Rogers (Efenechtyd )

Unawd Cerdd Dant dan 16 Manw Robin (Rhosgadfan )

Unawd Cerdd Dant dan 12 – Lowri Jarman (Llanuwchllyn )

Deuawd Cerdd Dant dan 21 – Celyn a Siriol

Unawd o Sioe Gerdd – Mali Elwy (Llansannan )

Pedwarawd Cerdd Dant – 1af Celyn, Ruth, Ceri a Siriol

Deuawd Cerdd Dant agored – 1af Sion Eilir ac Ellis (ardal Rhuthun )

Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst ym 1989 y cychwynnais gyda Chôr Merched Glyndŵr, tri deg mlynedd yn ôl! Erbyn hyn, rydym yn canu o dan enw newydd, sef Lleisiau'r Nant, ac mae'n braf dweud fod sawl aelod o'r Côr gwreiddiol yn dal i ganu yn y Côr ers y cychwyn. Roedd gofyn i'r Côr gyrraedd Maes yr Eisteddfod yn gynnar iawn fore Gwener er mwyn cael ymarfer bach cyn mynd i'r Rhagbrawf am 9. Roedd 4 Côr Cerdd Dant yn cystadlu a 7 Côr Gwerin, a'r safon yn uchel iawn. Roeddwn yn hynod falch o'u perfformiad ac yn hapus gyda'r canlyniad o ddod yn ail ar y Côr Cerdd Dant a chyntaf gyda'r Côr Gwerin.

Diolch i bawb am berfformio mor wych ac am yr hwyl gawson ni wrth baratoi.

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal gymerodd ran yn Eisteddfod Llanrwst eleni.

Leah

Dyma restr o'r rhai hynny ddaeth i'r brig ag yn agos iawn. Y Golygydd.

**Unawd Cerdd Dant dan 12** - Beca Fflur Edwards, Dinbych, Ail

**Deuawd Cerdd Dant dan 21** - Siriol Elin a Celyn Llwyd, Abergele a Dinbych, Ail

**Unawd Mezzo-Soprano/Contralto** - Ceri Haf Roberts, Henllan, Ail

**Cor Ieuenctid dan 25** - Cor Cytgan Clwyd, Ail

**Unawd Soprano 19 ac o dan 25** - Tesni Jones, Llanelwy, Trydydd

**Unawd Tenor 19 ac o dan 25** - Dafydd Jones, Llanrhaeadr, Ail

**Unawd o Sioe Gerdd 19 a throsodd** - Celyn Llwyd Cartwright, Dinbych, Cyntaf

**Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant** - Pedwarawd Clwyd, Cyntaf

**Unawd Lieder dan 25**
- Dafydd Jones, Llanrhaeadr, Ail
Tesni Jones, Llanelwy, Trydydd

**Unawd yr Hen Ganiadau 19 a throsodd** - Dafydd Jones. Llanrhaeadr, Cyntaf

**Gwobr Goffa Osborne Roberts** - Dafydd Jones, Llanrhaeadr, Cyntaf

**Llefaru Unigol 16 a throsodd** - Don Martin, Llanelwy, Ail

**Cor Alaw Werin** - Lleisiau'r Nant, Cyntaf

**Cor Cerdd Dant** - Lleisiau'r Nant, Ail

**Unawd Mezzo/Contralto/Gwrth Denor 25 a throsodd** - Katherine Nash,Llanelwy, Cyntaf
- Angharad Rowlands, Llundain/ Dinbych, Ail

Lluniau ar dudalen gefn

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk


Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors

# Gweld y Pell yn Agos

Mae'n fwy na thebyg y gall nifer ohonoch gofio'r darlledwr John Roberts Williams a'i slot **Dros fy Sbectol** ar Radio Cymru.
Wel - yn wahanol iddo fo - gweld **drwy** fy sbectol ydy' fy nhrafferth i.
Er imi fod yn hynod ofalus ohoni mae ambell grafiad a dylni wedi ymddangos ar y gwydrau er eu bod wedi'u gorchuddio â haenen denau o blastig a'r sbectol yn fengach na blwydd oed.
Bellach rhaid ceisio edrych heibio'r brychau hyn.
Rydwi wedi'i chadw hi'n ofalus yn ei châs dros nos pan nad ydw'i hangen hi, a phob tro – ar ôl derbyn cyngor gan yr optegydd - wedi'i rhoi hi i orffwys gyda'r breichiau yn ei chynnal hi.
Fe wnes ddefnyddio hylif arbennig a chlwtyn meddal i'w glanhau – eto ar ôl derbyn gair o gyngor gan yr optegydd – ond dydy pethau ddim gwell na phan oeddwn i'n defnyddio hylif golchi llestri a dŵr cynnes.
Mae pethau yn o dywyll arna' i beth bynnag rydwi'n ei ddefnyddio.
Darllen wedyn ar-lein bod past glanhau dannedd yn beth da i waredu'ch gwydrau o grafiadau.
Wel, fe wnes arbrawf gan ddefnyddio hen sbectol, a'r unig beth a ges i oedd gwydrau seimllyd a'r un hen grafiadau hyd yn oed yn fwy amlwg.
Ac o sôn am y cyfrifiadur, defnyddio hylif glanhau sgrîn y cyfarpar hwnnw oedd cyngor arall a ges i. Ofer fu hynny hefyd.
A oes gennych chi air o gyngor i hen ŵr sydd yn y gwyll yn ymgolli?
Peidiwch ag awgrymu imi fuddsoddi mewn contact lenses neu dderbyn llawdriniaeth laser. Alla' i ddim goddef unrhyw un yn cyffwrdd â'm llygaid.
Y mae hi'n dipyn o strach pan rydwi'n gorfod derbyn hylif diferol –y drops bondigrybwyll. Mae hanner y diferion hynny yn treiglo'n ddiniwed hollol i lawr fy moch.
Poendod fu gwisgo sbectol imi erioed ers derbyn fy mhâr cyntaf yn wyth oed. Testun gwawd a bwlio oedd gorfod gwisgo sbectol yn y cyfnod hwnnw.
Felly mi benderfynais gael un rhad ac am ddim y gwasanaeth iechyd. O ganlyniad roedd gen i esgus da dros beidio â'i gwisgo hi yn aml – roedd hi'n beth mor hyll.
Yn wir, roeddwn yn fy nauddegau cyn imi dderbyn yr anochel..... a gwisgo sbectol drwy'r adeg.
Ar hyd y blynyddoedd bu'n rhaid goddef hen rwbio annifyr tu ôl i'r clustiau a marciau coch ar fy nhrwyn pa bris bynnag a dalwyd amdani.
Ac yna, daeth y diwrnod mawr- diwrnod y bi-focal. Diwrnod y ddwy sbectol yn un – y rhan uchaf ar gyfer gweld y pell yn gliriach a'r rhan isaf ar gyfer darllen.
Mae gen i gof byw o fachgen yn fy nosbarth Ysgol Sul yn edrych arna' i'n ddwys am rai eiliadau ac yna'n d'eud, "Ew, mae gynnoch chi grac yn eich sbectol Mr Lyall- yn y ddwy lens."
Dydy gwisgo sbectol o'r fath ddim yn ddelfrydol o bell ffordd. Mae'n rhoi cric i chi yn eich gwddw pan ydach chi tra ar eich gwyliau yn mynd o amgylch amgueddfeydd yn ceisio dangos diddordeb yn yr hysbysfyrddau ar y parwydydd.
Mae rhai pobl yn glynu at ddwy sbectol, un ar gyfer darllen a'r llall ar gyfer gweld. Dydwi ddim yn berson digon trefnus ar gyfer hynny,
A sôn am fod yn drefnus, rhaid imi ganmol fy hun a d'eud nad ydw i erioed wedi eistedd ar fy sbectol nac wedi methu â dod o hyd iddi – hyd y gwn i! Ydy Alexa yn gallu helpu mewn argyfwng o'r fath?
Mae ambell sgriw ac ambell wydryn wedi dod yn rhydd, a dyna pam y bydda' i bob amser gyda phâr wrth gefn yn y car neu ar wyliau.
Un peth na alla' i wneud ydy' rhoi sbectol ar dop fy mhen fel y mae'n ffasiwn gan rai pobl. Mae fy mhen i'n rhy fawr i hynny!
Mae yna rai pobl yn gwisgo sbectol o ran sioe neu o ran gorchest. Fel un sy'n gorfod gwisgo sbectol, mae'n anodd gen i ddeall hynny.
Wel, mae'n hen bryd imi gael paned ar ôl rhefru fel hyn. Mae'r tegell yn berwi a'r ager yn codi o'i bîg. Wrth imi nesáu ato mae hi'n niwl arna' i. Dydwi'n gweld dim....
Ond yna rŵan mae'r gwydrau yn glir fel grisial. Dwi'n gweld pethau yn llawer gwell.
Eureka!!! Ager ydy'r ateb.
..........................................................
Fe wnaeth o fy nharo i'n ddiweddar fod yna nifer fawr o'n darllenwyr wedi bod yn bobl ifanc trendi iawn ym mhumdegau a chwedegau y ganrif ddiwethaf. "With it" oedd yr ymadrodd ar y pryd.
Oeddech chi'n un o'r rhai oedd yn gwisgo mini, esgidiau stiletto, esgidiau trwynau main neu drowsus "drainpipe" ac yn anfon eich rhieni yn wallgof gyda'ch colur, eich gwallt hir a'ch hoffter o roc'n rôl?
Wedi'r cyfan ni - a sylwch mai ni nid chi rydwi'n ei ddefnyddio - oedd y genhedlaeth a elwid yn rebels. Oes, mae yna hanner can mlynedd a mwy wedi mynd heibio ers dyddiau'r Beatles, y Stones a'r Pelydrau!
Ydach chi wedi bod yn ddigon dewr ac wedi dangos eich llun yn y dyddiau hynny i'ch teulu?
Diddorol fyddai cael eich ymateb a gweld oriel o'r fath yn **Y Bigwn**.

**Stan Lyall**



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Cynghorydd
cyngor sir ddinbych
Mark John Young

Dinbych Isaf
- Annibynnol
S: 07825 912554
www.sirddinbych.gov.uk
E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU

Enwau

CRONFA DREFTADAETH

**CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU YN SICRHAU CEFNOGAETH GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL**

Heddiw, cyhoeddodd y Loteri Genedlaethol bod grant o £38,000 wedi ei ddyfarnu i Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ar gyfer datblygu prosiect treftadaeth o'r enw LLWYBRAU. Prif amcanion y prosiect fydd codi ymwybyddiaeth o werth enwau lleoedd fel rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol ac annog cofnodi enwau er mwyn eu diogelu i'r dyfodol, a hynny gan ddefnyddio llwybrau ar hyd a lled Cymru yn thema ar gyfer y gwaith.

Mae ein henwau lleoedd yn wynebu bygythiad difrifol a chyson wrth iddynt gael eu newid, eu cyfieithu neu eu diystyru. O'u colli, fe ddiflanna talp sylweddol o'n hetifeddiaeth a dolen gyswllt holl bwysig â'n gorffennol. Yn wahanol i elfennau eraill o'n treftadaeth megis adeiladau, anifeiliaid, a phlanhigion, rhaid gweithredu a'u gwarchod yn niffyg grym deddfwriaethol.

Dros y ddwy flynedd nesaf bwriad y Gymdeithas yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd yn lleol a chenedlaethol. Gwneir hyn trwy drefnu sgyrsiau, teithiau cerdded, ac arddangosfeydd. Bwriedir cynnal, yn ogystal, weithdai a grwpiau trafod er mwyn casglu a chofnodi mân enwau lleol (yn enwedig y rheini sydd wedi eu cadw a'u trosglwyddo hyd yma ar lafar yn unig). Gobeithiwn hwyluso dadansoddi a dehongli'r enwau hynny. Trwy wneud hyn byddwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd dan adain Gwarchod, ein prosiect cyntaf i dderbyn cefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol.

Mae'r prosiect yn berthnasol i Gymru gyfan a bydd croeso i bawb a all wneud cyfraniad. Edrychwn ymlaen i gydweithio ag unigolion, cymdeithasau lleol a sefydliadau cenedlaethol. Wrth wneud hyn byddwn yn estyn ein gweithgarwch i gylchoedd newydd a fydd yn cynnwys y to hŷn, pobl fregus eu hiechyd, a thrigolion ardaloedd llai breintiedig.

Ein gobaith yw y bydd yr enwau a gofnodir yn rhan o'r prosiect yn adnodd gwerthfawr a chynhwysfawr fydd yn hygyrch i bawb drwy ein gwefan.

Wrth groesawu'r cyhoeddiad, dywedodd yr Athro David Thorne, Cadeirydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, "Rŷn ni'n hynod o falch bod y Loteri Genedlaethol wedi dangos ymddiriedaeth yn ein gwaith yn y gorffennol drwy ddyfarnu ail grant i ni. Bydd hyn yn gyfle i ni adeiladu ar y sylfaen gadarn a grëwyd gyda chymorth grant y Loteri i brosiect Gwarchod nôl yn 2013".

Dywedodd Richard Bellamy, Cyfarwyddwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cymru "Mae cymaint o'n hanes ynghlwm wrth atgofion a phrofiadau pobl gyffredin. Bydd 'Llwybrau' yn casglu ac yn cofnodi mân enwau, sef yr enwau lleoedd hynny nad ydyn nhw fel rheol yn cael eu cofnodi ar fapiau swyddogol. Dangosodd ein profiad fod y rhain yn holl bwysig o ran egluro elfennau yn ein hanes ni sydd mewn perygl o ddiflannu. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym yn gallu cefnogi prosiectau fel hyn sy'n dathlu cyfraniad pobl i'w treftadaeth".

## Cristnogaeth 21

Ydy crefydd yn ddiflastod? Ydy Cristnogaeth wedi colli ei flas? Ydy mynychu capel ac eglwys yn fwrn? Ond eto... oes gyda chi rhyw ysfa am fywyd ysbrydol sy'n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain? Ydy heddwch, cyfiawnder a chariad yn bwysig i chi?

Mae Cristnogaeth 21 yn rhwydwaith o Gristnogion Cymraeg eu hiaith sy'n cynorthwyo ei gilydd i hyrwyddo ymagwedd ryddfrydol a blaengar at faterion ffydd a chred. Mae cefnogwyr Cristnogaeth 21 yn perthyn i drawstoriad o'r enwadau Cristnogol traddodiadol ac yn cynnwys llawer nad sy'n uniaethu gydag enwadaeth o gwbl.

Mae gan Gristnogaeth 21 wefan sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol, byrddau clebran a chylchgrawn parhaus, Agora, sy'n llawn erthyglau difyr a heriol. Ar y wefan mae modd cofrestru i dderbyn e-neges wythnosol, sy'n gyfle i gnoi cil ar faterion crefyddol y dydd. Gallwch ymuno gyda'r grŵp *Facebook* hefyd i dderbyn gwybodaeth a newyddion perthnasol am Gristnogaeth ryddfrydol a blaengar yng Nghymru a thu hwnt.

Mae croeso felly i bawb – addolwyr selog, Cristnogion cwsg a phererinion chwilfrydig. Ymunwch â chriw Cristnogaeth 21 ar y daith anturus i ail-feddwl ac i ail-lunio ein hetifeddiaeth Gristnogol ar gyfer yfory.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.cristnogaeth21.cymru.

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

PyBj

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Grŵp Cynefin

**Cymdeithas dai a'i thenantiaid yn dathlu ennill y dwbl!**

Enillodd cymdeithas dai gogledd Cymru ddwy wobr arbennig y diwydiant tai, gan gryfhau ei gweledigaeth o gynnig 'Mwy Na Thai' i drigolion a chymunedau'r ardal.

Enillodd Grŵp Cynefin y wobr gyntaf yng ngwobrau TPAS Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, yng nghategorïau tenant ifanc y flwyddyn a gweithredu cymunedol.

Cafodd **Keira George** gydnabyddiaeth am ei siwrnai lwyddiannus wedi iddi gael ei gwneud yn ddigartref, i fod yn ddylanwad allweddol ym mhrosiect Youth Shedz y gymdeithas ac astudio am gymhwyster trin gwallt.

Mae Keira, sy'n 21 oed, yn byw yn natblygiad Yr Hafod gan Grŵp Cynefin. Prosiect yw hwn sy'n cynnig tai â chefnogaeth i chwech o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Mae'r prosiect yn darparu gweithgareddau cefnogol i'r bobl ifanc yn eu llety, ar y safle ac yn y gymuned.

Cafodd yr ail gategori llwyddiannus ei wobrwyo i Siop Griffiths, Penygroes. Fel rhan o'r prosiect hwn gwelwyd y gymuned leol yn cymryd perchnogaeth o siop wag a'i throi'n gaffi, gyda chanolfan ddigidol i gael ei lansio yn nes ymlaen yn y flwyddyn, a llety i ymwelwyr i gael ei ddatblygu yn nechrau 2020. Bydd y llety yn cynhyrchu incwm i redeg y caffi a llogi gweithiwr.

Cefnogodd Grŵp Cynefin y grŵp cymunedol gyda cheisiadau grant a chyngor ar ddatblygu'r cynllun yn fusnes hunangynhaliol.

Mae'r gwobrau, a gafodd eu sefydlu fwy nag 20 mlynedd yn ôl, yn canolbwyntio ar y rôl y mae tenantiaid yn ei chwarae wrth greu cymunedau tai cymdeithasol.

Dywedodd **Mair Edwards**, Rheolwr Mentrau Cymunedol Grŵp Cynefin: "Mae ennill y ddwy wobr yn dangos ein hymrwymiad i 'Fwy Na Thai', sy'n greiddiol i'n gweledigaeth i wneud gwahaniaeth positif i fywydau a chymunedau'r ardal.

"Mae Keira wedi profi y gallwch newid cyfeiriad os nad ydych chi'n hapus gyda'ch sefyllfa bresennol. Tra mae Grŵp Cynefin yn darparu'r elfennau ymarferol, megis tai fforddiadwy a phrosiectau cymunedol, gan gynnwys Youth Shedz, mae ei hagwedd a'i rhagolwg



Keira George

cadarnhaol wedi bod yn ysbrydoliaeth gan alluogi iddi wneud yn fawr o'r cyfleoedd a gafodd eu cynnig iddi.

"Mae stori prosiect Siop Griffiths yn un wych – nid yn unig yn un o roi bywyd newydd i hen siop, ond hefyd yn cynnig cyflogaeth a chefnogaeth ddigidol i'r gymuned. Dylai'r grŵp fod yn falch o'r hyn maen nhw wedi ei gyflawni, a gobeithiaf y bydd yn annog eraill i gydweithio gyda ni i helpu i wella eu cymunedau."

Cafodd Youth Shedz ei sefydlu i gefnogi pobl ifanc a fu'n ddigartref, a chaiff ei redeg gan wasanaeth cefnogi Grŵp Cynefin, sef Gorwel.

Meddai Keira: "Mae ennill yn wirioneddol wych, ac yn eisin ar y gacen. Mae'r gydnabyddiaeth yma'n dangos ei bod yn bosib i bobl wella eu hamgylchiadau.

"I mi'n bersonol, y cyflawniad mwyaf yw pa mor bell dwi wedi dod ac wedi datblygu ers i mi fynd i fyw i'r Hafod. Cefais fy ngwneud yn ddigartref ar ôl byw adref, ac ar ôl symud o soffa i soffa am ychydig ddyddiau, symudais i'r Hafod yn 2017.

"Mae Grŵp Cynefin wedi darparu profiadau datblygu da i mi, gan gynnwys y prosiect Youth Shedz, ac maent wedi fy nghefnogi ym mhob penderfyniad dwi wedi ei wneud.

"Dwi'n gobeithio y bydd y wobr yma'n rhoi hyder i bobl ifanc eraill i wella eu hunain beth bynnag ydi eu cefndir.

Dywedodd **Shan Lloyd Williams**, Prif Weithredwr Grŵp Cynefin "Mae ein staff a'n tenantiaid yn gweithio'n ddiflino i wneud gwahaniaeth positif o fewn cymunedau, ac mae'r gwobrau hyn yn tystio i'r gwaith gwych maent yn ei wneud."





Mair Edwards (canol) derbyn y wobr

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

**CEIR CLWYDIAN**



Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol

yna, galwch i'n gweld ar-



FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009

# Pobl ifanc yng Ngogledd Cymru i gael mynediad i gyfleoedd gwell am waith gyda chymorth gan elusen Versus Arthritis

Mae'r elusen Versus Arthritis yn lansio Cymryd y Cam Nesaf, prosiect i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 25 sy'n byw yng Ngogledd Cymru, sydd efo anhwylderau cyhyrysgerbydol (musculoskeletal conditions) - megis arthritis – ac sydd eisiau cael gafael ar waith. Anelir y prosiect at ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc a rhoi'r hyder iddynt ffynnu unwaith maent yn y gweithle. Mi fydd y rhain yn cael eu cyflwyno trwy gyfres o weithdai wedi'u dylunio i'w helpu cael mynediad at addysg uwch, i ymgeisio a chael eu cyfweld am swyddi, a datblygu eu sgiliau proffesiynol megis cyflwyno a rheoli amser.

Mae arthritis a chyflyrau perthynol yn boenus dros ben, ac yn medru arwain at anabledd hirdymor a cholled o annibyniaeth. Mae nifer o bobl yn darganfod eu bod methu gweithio neu angen gweithio llai o oriau. Yn ôl ffigyrau diweddar ar ddiweithdra ieuenctid 1, dim ond 38 y cant o bobl ifanc anabl sydd mewn gwaith, i'w gymharu â 56 y cant o'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.


Mae Sharyn Williams, Cydlynydd Pobl Ifanc a Theuluoedd at Versus Arthritis yn dweud "Rydym yn gwybod trwy sgyrsiau rydym wedi cael gyda phobl ifanc mae'r elusen yn gweithio efo eu bod yn pryderu am ymgeisio am swyddi. Maent yn pryderu na fydd cyflogwyr yn medru cynnig patrymau gweithio hyblyg neu addasiadau. Yn ogystal â hyn mae nifer o bobl ifanc sy'n ymgeisio am addysg bellach ag uwch wedi dweud wrthym eu bod nhw'n aml yn cael eu gorfodi i newid neu adael eu cyrsiau oherwydd nad ydynt yn cael eu cynnig y cymorth maent yn eu hangen."

Mae'r Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr hefyd yn ymgyrchu dros bobl ifanc anabl er mwyn iddynt gael mynediad i gyfleoedd ar ôl addysg trwy eu hymgyrch Myfyrwyr Anabl.

Dywed Piers Wilkinson, Swyddog Myfyrwyr Anabl UCM: "Mae Cymryd y Cam Nesaf yn brosiect sydd yn ceisio helpu pobl ifanc sy'n byw gydag anhwylderau cyhyrysgerbydol i wybod bod ganddynt opsiynau. Croesewir prosiectau sydd yn helpu myfyrwyr gael mynediad i brentisiaethau, cyrsiau addysg bellach neu uwch, ac sy'n eu cefnogi ar ôl addysg. Yn aml mae pobl anabl yn wynebu nifer o rwystrau, ac mae'n wych i weld Cymryd y Cam Nesaf yn cefnogi ein hymgyrch i oresgyn hyn."

Mae Cymryd y Cam Nesaf, a chefnogwyd gan chwaraewyr y People's Postcode Lottery, yn dechrau gyda gweithdy o'r enw 'Llwyddo gydag arthritis ac anhwylderau cyhyrysgrebydol eraill' ar y 28ain o Fedi yn Galeri, Caernarfon, fel rhan o wythnos 'Edrych ar ôl fy hun' Cyngor Gwynedd. Mi fydd sgyrsiau grŵp anffurfiol yn dilyn i bobl ifanc sy'n byw gydag arthritis ag anhwylderau cyhyrysgerbydol perthynol i dewis pynciau i'r gweithdai a gweithgareddau cymdeithasol a gosod nodau i'w hunain a blwyddyn gyntaf y prosiect. Mi all pobl ifanc cofrestru eu diddordeb yn y prosiect trwy gysylltu â Sharyn Williams ar S.Williams@versusarthritis.orgneu 07483 370550/ 0800 756 3970.


SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431



Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau



siop siocled
01745 814864 dinbych

Siocled o wlad y Belt
Siocled cymraeg o Bala
Pizza siocled - Te, coffi a sgwrs
Cinio ysgafn - Cacenau blasus a sgons
Annie

YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com



MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych

* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones



CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsi a Gwethu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA




Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur



01745 812482

# PIGION O'R BIGWN – HYDREF 1989



Dafydd Elis Thomas, Llywydd, Eifion Lloyd Jones, Cadeirydd Clwyd a Dafydd Huws, Cadeirydd Cenedlaethol Plaid Cymru.

## Cynhadledd Dinbych '89

Dyma fis hanesyddol i dref hanesyddol Dinbych gyda'r gynhadledd wleidyddol flynyddol gyntaf i'w chynnal yma yn cael ei lleoli yn Neuadd y Dref o brynhawn Iau Hydref 26 hyd y bore Sul canlynol.

Plaid Cymru sydd wedi dewis Dyffryn Clwyd ar gyfer cynhadledd a allai fod yn hanesyddol, hefyd, yn hanes y Blaid ei hun.

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd bydd etholiad ar gyfer y llywyddiaeth, gyda'r Dr Dafydd Elis Thomas yn wynebu bygythiad yr hynofgwr o Benybont, Pedr Lewis. Ac mae'n ddiddorol cofio mai colli'r dydd wnaeth Dafydd Ellis Thomas y tro diwethaf iddo sefyll etholiad am y llywyddiaeth!

Dafydd Wigley a'i trechodd bryd hynny, gyda Dafydd Elis yn curo Dafydd Iwan am yr /is-Lywyddiaeth yn ddiweddarach. Yna, pan ymddiswyddodd Dafydd Wigley,



Dr Kate Roberts yn agor Theatr Twm o'r Nant

## THEATR TWM O'R NANT

**PRIODAS**

Ar Awst 26ain 1989 priodwyd Dylan Rhys Jones, mab Tecwyn ac Eiddwen Jones, Lon Parc, Dinbych, a Catherine Green, Treherbert, Y Rhondda. 'Roedd Dylan yn un o Olygyddion y Bigwn ac yn gysylltiedig a Theatr Twm o'r Nant.

**THEATR** - Y mis hwn ym 1989 dathlwyd agor Theatr Twm o'r Nant ddeng mlynedd cynt gan y Dr. Kate Roberts, a chafwyd atgofion lawer yn y Bigwn am ddigwyddiadau a pherfformiadau cofiadwy. Eto yr oedd angen arian at gynnal y theatr a gwnaethpwyd apel.

**Y LLYFRGELL**

Agorwyd y llyfrgell newydd ar Hydref 4 1989 ( ag ar Hydref 4 2019 cafwyd dathlu o fod wedi bod ar agor am 30 mlynedd) . Yn yr ysgrif olygyddol dywedwyd ---" I nodi'r achlysur cyhoeddwyd argraffiad ffacsimili cyfyngedig o Ancient and Modern Denbigh gyhoeddwyd yn wreiddiol yn1856 gan John Williams ----- braf yw cyhoeddi fod dros ddwy fil o bobol a phlant wedi ymaelodi yn y llyfrgell newydd yn ystod y pythefnos cyntaf ---- edrychwn ymlaen yn awr i weld addasu'r hen lyfrgell yn Ganolfan Iaith i Glwyd ".

**'STEDDFOTA**

Yng nghanol y papur yn 1989 cafwyd "llongyfarchiadau i bawb o gylch y Bigwn a gafodd lwyddiant yn Steddfod Llanrwst " a chawn ninnau bellach estyn yr un llongyfarchiadau eleni i'r holl bobl gafodd lwyddiant o unrhyw fath yn Eisteddfod Llanrwst 2019.

**MEDDYGFA**

Agorwyd meddygfa newydd Dr. Gwyn Thomas ym mis Gorffennaf 1989 gan Nerys Hughes yr actores.



Kate Davies, Alun Wyn Owen, Mair Matthews, Berwyn Roberts a Jane Rees

Annwyl olygydd,
Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Yr ydym (Cyhoeddiadau'r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020, fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy'n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment hon. Mae hon yn fenter gyffroes, a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel eu gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i'w henw, a beirdd sy'n cyhoeddi am y tro cyntaf un.
Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i'r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus, ond mae ein llyfrau a'n cyfrolau i'w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol, a thrwy ragarchebion.
Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang a phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer cael eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i'w hystyried atom erbyn Rhagfyr y 31ain, 2019, a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).
Mae mwy o wybodaeth i'w chael o'n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu'n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp @gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i'r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.
Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi'n rhannu'r neges hon gyda'ch darllenwyr.
Diolch o galon
Grug Muse, ar ran Cyhoeddiadau'r Stamp.

## Cyngerdd Elusenol Y Maer

Cynhaliwyd cyngerdd elusennol Maer Dinbych, y Cyng Gaynor Wood-Tickle, Neuadd Y Dref, Dinbych Nos Sadwrn, 14eg o Fedi gyda Chôr Godre'r Aran dan arweiniad Eirian Owen er budd elusennau Cynnig, Y Samaritans a Brake.

Cartref Côr Godre'r Aran yw pentref Llanuwchllyn wrth droed mynydd yr Aran.
Dros y blynyddoedd, bu Côr Godre'r Aran yn cystadlu'n llwyddiannus ar lefel genedlaethol a rhyng-genedlaethol gan ennill prif-wobrau cystadlaethau corau meibion yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod Ryng-genedlaethol, Llangollen.
Yn 2005 enillodd y côr gystadleuaeth BBC Radio Cymru i gorau meibion.
Dilwyn Pierce oedd yn arwain y noson, ffermwr o Lannefydd wedi dechrau diddanu drwy mudiad y ffermwyr ifanc a bellach yn wyneb cyfarwydd ar lwyfannau ledled y wlad ac ar S4C.
Cymerwyd rhan hefyd gan Erfyl Tomos Jones, (baritone) enillydd Ruban Glas Eisteddfod Llanrwst eleni a Arfon Griffiths,(Tenor)hefyd enillydd eleni, y ddau yn aelodau or Côr.
Hefyd cafwyd deuad gan Sion Eilir ac Elis Jones, Rhuthun,hwythau yn enillwyr yn Eisteddfod Llanrwst

Lluniau ar dudalen 27

## Genefa, Paris a Dinbych ac Ysgrifau Eraill.

Lluniau ar dudalen 2

HUMPHREY Llyud, William Salesbury, Henry Salesbury, Morgan Llwyd, Jac Glan-y-Gors, Thomas Jones o Ddinbych, Twm o'r Nant, Thomas Gee a Syr Henry James.
Dyna enwau rai o fawrion llenyddol Sir Ddinbych ac enwau sy'n ymddangos mewn cyfrol newydd sbon – Genefa, Paris a Dinbych ac Ysgrifau Eraill.
Casgliad o ysgrifau sy'n bwrw golwg ar bum canrif o gyfraniad i ddiwylliant Cymru gan rai o enwogion yr hen Sir Ddinbych sydd yn y llyfr.
Ond er mai Sir Ddinbych oedd cynefin daearyddol y gwyr llên a drafodir yn y gyfrol hon, roedd eu cynefin syniadol yn eang iawn ac o bwys mawr i Gymru gyfan.
Daethant dan ddylanwad meddylwyr o'r Eidal, yr Almaen, y Swistir, Ffrainc, Lloegr ac America.
Meddai Gwynn Matthews, awdur y gyfrol: "Mae dwy wedd i'r casgliad hwn o ysgrifau.
"Gellid eu hystyried fel rhai o wyr llên Sir Ddinbych a'u cyfraniad i hanes lleol, neu gellid eu hystyried fel ysgrifau ar hanes syniadau a'u cyfraniad i hanes deallusol Cymru."
Lansiwyd yn swyddogol nos Lun, Gorffennaf 29 yn Llyfrgell Dinbych.
Bethan Hughes oedd yn llywio'r noson, a darlleniadau gan gaynor Morgan Rees

Mae Genefa, Paris a Dinbych ac Ysgrifau Eraill gan E Gwynn Matthews ar gael nawr (£9.99, Y Lolfa).


Plaid Cymru | Party of Wales

**Llyr Gruffydd AC**



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

**Llyr Gruffydd AC**
**Canolfan Fusnes Birch House**
**Hen Lôn Parcwr**
**Rhuthun**
**LL15 1HN**
**01824 703593**
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

@LlyrGruffydd

**www.llyrgruffydd.cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Clwb Pêl-droed Dinbych

Mae'r Tîm Cyntaf wedi cael dechrau arbennig i'w tymor eleni yng Nghynghrair Lockstock Cymru 1 ac ar hyn o bryd maent yn sefyll ar frig y tabl ar ôl chwarae wyth gêm gan ennill saith ohonynt.

Yn dilyn eu llwyddiant diweddar, fe wobrwywyd y rheolwr Dewi Llion gyda gwobr Rheolwr y Mis ym mis Awst yng Nghynghrair Adran Chwaraeon Glannau Dyfrdwy. Mae'r tîm yn gobeithio adeiladu ar y llwyddiant yma a dychwelyd yn ôl i Ail Haen Pêl-droed Cymru yn dilyn eu darostyngiad y tymor diwethaf.

Gêm gyntaf y tîm oedd yn erbyn Mynydd Llandegai fe enillon nhw o 4-1 gyda goliau gan Jake Walker (2), Mark Roberts ac un gôl gan chwaraewr y gwrthwynebwyr. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, cafwyd gêm ddarbi leol yn erbyn Llanelwy, ac fe enillodd Dinbych o 2-1 gyda goliau gan y chwaraewr ifanc Dan Clarke, a pheniad anhygoel gan Owain Roberts yn ystod munudau olaf y gêm.

Buddugoliaeth 3-2 gartref oedd hi nesaf yn erbyn Llanrug gyda Jake Walker yn sgorio dwy eto yn ogystal â Mark Roberts. Yna, yn Llanrwst oddi cartref, fe barhaodd Walker gyda'i goliau gan sgorio tair mewn buddugoliaeth o 3-1 ar noson wlyb o haf.

Daeth y buddugoliaethau i ben yn anffodus oddi cartref yn erbyn Holyhead Hotspurs. Cafodd y ddau dîm eu darostwng y tymor diwethaf, ac felly cafwyd gêm hynod o gyffrous a tan y funud olaf roedd hi'n edrych fel gêm gyfartal. Wedi gôl gan Mark Roberts, fe sgoriodd un o'r gwrthwynebwyr yn ystod cic olaf y gêm a oedd yn golygu colled i Ddinbych o 2-1.

Dychwelodd y buddugoliaethau'r wythnos ganlynol gyda gêm ddarbi leol arall yn erbyn Llandyrnog y tro yma, ac unwaith eto fe sgoriodd Walker ddwy gôl, a Dan Clarke yr olaf i'w gwneud hi'n 3-0. Walker a Roberts a gafodd y goliau yn y gêm 2-0 yn erbyn Penrhyndeudraeth ac yn olaf, gêm flêr yn erbyn Glan Conwy ble sgoriodd Dan Clarke yr unig gôl o 1-0 i ddiweddu mis prysur o bêl-droed i'r Tîm Cyntaf.

Mae'r Ail Dîm hefyd wedi cael mis prysur o bêl-droed, a hynny dan arweiniad y rheolwr Nick Hailes, gyda buddugoliaeth o 4-0 yn erbyn Ail Dîm Llanrwst. Andy Thomas a sgoriodd dair gôl gyda Liam Roberts yn sgorio'r olaf. Roedd Thomas ar y bêl unwaith eto yn y gêm ddarbi leol yn erbyn Ail Dîm Llanelwy gydag un gôl mewn gêm gyfartal o 2-2 a Josh Griffiths yn sgorio'r ail.

Ail Dîm Prestatyn oedd y gwrthwynebwyr nesaf mewn gêm gartref ble enillodd Dinbych o 4-1 gyda goliau gan Lewis Jenner (2), Liam Roberts ac Andy Thomas.

Roedd eu gêm olaf o'r mis yn erbyn Bae Cinmel ac Andy Thomas oedd seren y gêm honno wrth iddo sgorio pedair gôl mewn buddugoliaeth o 4-1. Perfformiad gwych gan unigolyn.

Ar hyn o bryd, mae'r Ail Dîm hefyd ar frig eu cynghrair sef Cynghrair Ail Dîm Lockstock Cymru ar ôl pedair gêm gyda 10 pwynt.

Cafodd tîm Denbigh Development, dan reolaeth Craig Morris, ddechrau gwych i'r tymor yng Nghynghrair Dyffryn Clwyd a Chonwy 2 gyda buddugoliaeth gampus o 4-2 yn erbyn Rhyl All Stars gyda goliau gan Alfie Harrison, John Dickson (2) a Liam Nash. Colli oedd eu hanes yn y ddwy gêm nesaf o 8-2 yn NFA a 2-1 yn erbyn Betws-y-coed. Er hynny, mae'n bwysig pwysleisio mae mwyafrif o chwaraewyr y tîm yn 16 ac 17 oed ac sydd felly'n cael blas ar bêl-droed uwch am y tro cyntaf.

Rhwng y gemau dros y mis diwethaf, cafwyd gêm elusennol 'Uptown v Downtown', ble daeth bechgyn dop dre yn fuddugol. Fe gododd y gêm dros £2700 ar gyfer helpu Alisha Hoyles, merch 14 oed o Henllan sy'n brwydro yn erbyn Osteosarcoma.




Jake Walker yn dathlu ei goliau yn erbyn Llanrwst.



Owain Roberts (rhif 6) gyda'i gôl yn ystod y gêm ddarbi leol yn erbyn Llanelwy.

# TYMOR ARDDERCHOG CLWB CRICED DINBYCH

Yn goron ar ddathlu 175 mlynedd o'i fodolaeth, cafodd clwb criced Dinbych un o'r tymhorau gorau erioed yn ei hanes.
Cafodd y tîm cyntaf dymor llewyrchus iawn gan ennill dros 61% o'r gemau a chwaraewyd, a gorffen yn y pedwerydd safle yn Uwchgynghrair Gogledd Cymru.
Yn wir, roedd hi'n ymddangos ar un adeg y gallent fod yn herio am y bencampwriaeth wrth iddynt gael cychwyn gwych i'r tymor.
Y batwyr mwyaf cyson ar hyd y tymor oedd yr agorwyr Gerallt Lyall (620 rhediad ar gyfartaledd o 36.47) a Harrison Jones, y capten, (566 rhediad, cyfartaledd 31.44).
Llwyddodd y canlynol hefyd i wneud cyfraniadau nodedig mewn gemau unigol – Andy Clarke (111 heb fod allan), Sam Lewis (95) a Tom Schrimshaw (85 heb fod allan).
O ran bowlio cipiodd Sam Lewis 40 o wicedi gyda Harrison Jones yn dynn ar ei sodlau gyda 37 wiced.
Ond y ffigurau mwyaf nodedig oedd y canlynol gan Alec Lewis yn erbyn Cei Connah, sef 8 wiced am 8 rhediad yn unig. Anhygoel!
Unwaith eto roedd Joe Clayton yn hollol ddibynadwy fel wicedwr gan fod yn gyfrifol am 11 daliad a stympio 8 batiwr. Gwnaeth gyfraniadau pwysig gyda'r bat hefyd.
Flwyddyn yn ôl proffwydwyd yn **Y Bigwn** y byddai dau o laslanciau'r clwb yn debygol o wneud eu marc eleni, a dyna a ddigwyddodd.
Cipiodd Ifan Jones, y llanc 15 oed o Ruthun, wicedi pwysig mewn gemau yn ystod ail hanner y tymor. Yn wir, llwyddodd i gael dau chwaraewr proffesiynol allan!
Enillodd Archie Sussex ei le yn nhîm Cymru, a chyfyngodd hynny ar ei ymddangosiadau dros y clwb. Ond pan fu modd iddo chwarae i dimau Ffordd Ystrad gwnaeth gyfraniad clodwiw.
Rhyngddynt cipiasant dros hanner can wiced ar y lefel uwch.
Cafodd yr ail dîm dymor penigamp hefyd gan orffen yn yr ail safle yn y drydedd adran. Yn bendant, byddent wedi gorffen yn uwch oni bai am alwadau gan y tîm cyntaf am chwaraewyr i lenwi bylchau yn y rhengoedd.
Yn wir, llwyddasant i rychu Llanelwy, y pencampwyr, yng ngêm olaf y tymor gyda Jon Eccles yn sgorio 158 heb fod allan.
Llanc ifanc arall sydd yn dechrau gwneud ei farc ar y lefel uwch yw James Thomas.
Y mae gan y clwb adran iau gref a golygfa hyfryd ar nos Wener braf ydyw eu gweld nhw yn bwrw ati o ddifrif ar Ffordd Ystrad.
Daeth y tîm dan 11 oed a'r tîm dan 15 yn bedwerydd yn eu hadrannau ac enillodd y rhai dan 9 oed dair o'r saith gêm a chwaraewyd.
Bu hi'n dymor caled i'r rhai dan 13 oed, ond roeddent yn llawn brwdfrydedd.
Yn bendant, bu 2019 yn dymor i'w gofio yn hanes un o glybiau chwaraeon hynaf Gogledd Cymru.

Stan Lyall

# BOWLIO


Ar ddydd Sul, Medi 15 cynhaliwyd gornest fowlio rhwng timau o'r Trefi Caerog yng ngogledd Cymru, sef Dinbych, Caernarfon, Conwy a Biwmares. Tro Caernarfon oedd hi fel man cyfarfod eleni gyda Dinbych, fel y lleill yn gyrru chwech i'w chynrychioli fel tref, sef Mair a Richard Hughes, Gordon Jones a Joseph Asbey, Jean Gwynn a Brian Moores. Daeth Beti Jones yn chwaraewr wrth gefn a galwyd arni i chwarae yn y gem olaf.

Roedd brwydro difrifol a safon uchel iawn i'w weld ar y diwrnod ag er mai Biwmares a enillodd, cafodd Jean Gwynn a Brian Moores o Ddinbych fuddigoliaeth yn un o'r rowndiau tyngedfennol, a'r parau eraill yn dod yn agos iawn at ennill hefyd. Llongyfarchiadau i bawb.

# CLWB RYGBI DINBYCH

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Bigwn weld golau dydd am y tro cyntaf, fe fydd Cymru eisoes wedi chwarae dwy gêm yng Nghwpan Rygbi'r Byd (gyda record 100% dwi'n mawr obeithio!) a bydd tymor rygbi newydd Gogledd Cymru i mewn i'w ail mis.
Cyn dechrau'r tymor chwaraewyd tair gêm gyfeillgar, gyda'r Tîm Cyntaf yn curo'r Wyddgrug gartref o 45-22. Y prif sgorwyr oedd Rowan Hughes gyda dau gais a Tom Seddon gyda tri throsiad. Yn eu gêm nesaf yn Wrecsam, colli fu'r hanes o 10-7, gyda Gruff Roberts yn sgorio unig bwyntiau Dinbych, yn trosi ei gais ei hun.
Chwaraeodd yr Ail Dîm yn erbyn tîm o Abergele, gyda'r ymwelwyr yn cario'r dydd o 33-5. Harley Jones sgoriodd yr unig gais i Ddinbych.
Roedd tasg hynod anodd yn wynebu'r ddau dîm ar ddydd Sadwrn cynta'r tymor swyddogol, gan deithio i Ben Llŷn i chwarae yn erbyn Pwllheli. Er i'r Tîm Cyntaf ifanc a di-brofiad fod triphwynt yn unig ar ei hôl hi ar hanner amser, sgoriodd y tîm cartref dri chais yn chwarter ola'r gêm i sicrhau buddugoliaeth o 29-5, ond sgoriodd Dinbych gais cysur ym munudau ola'r gêm drwy'r asgellwr Kieran Bonar. Collodd yr Ail Dîm hefyd, o 30-0 yn erbyn tîm llawer cryfach.

*John Davies*

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Capel Brwcws yn Dathlu 150







hanes y dathlu ar dudalen 6



Plant Capel Brwcws



Gwilym Williams, Parch Ddr Andras Iago, Elizabeth Edwards, Rhianwen Williams, Carolyn Thomas a Dilwyn Jones (Gweinidog a blaenoriaid Brwcws)

# Cyngerdd y Maer



Arweinydd Dilwyn Pierce



Cefn -Jenny a Carys - (hanes tud 24)
Blaen - Zara a'i mam Eileen Wood



Steph Furley wrth y drws

Cyngerdd Elusennol y Maer gyda Côr Godr'r Aran er budd elusennau Cynnig, Y Samariaid a Brake



Cyng. Roy Tickle,Erfyl Tomos Jones,Eirian Owen, Sion Eilir, Maer Cyng. Gaynor Tickle, Elis Jones ac Arfon Griffiths







Côr Cytgan Clwyd gyda'i harweinydd Leah Owen hanes tud 18




Beca Fflur Edwards



Dafydd enillydd y Rhuban Glas



Celyn, Siriol, Ruth a Ceri




Kirin Gilmore chwaer Aaron hanes tud 4

Enillwyr cystadleuaeth mis Gorffennaf, -Cornel y Plant



Elysa haf Morgan, 22 Y Maes, Dinbych 1af



Jac Evan Morgan, 22 Y Maes, Dinbych yn 2il



Jackie Lewis o'r Trallwng - hanes tud 8